**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**CYNLLUN DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU**

## Cyflwyniad

Mae Adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu ar gyfer penderfynu pa swyddogaethau'r awdurdod lleol y mae'r Weithrediaeth yn gyfrifol amdanynt o dan drefniadau Gweithrediaeth. Rhaid i holl swyddogaethau awdurdod lleol fod yn gyfrifoldeb y Weithrediaeth oni nodir yn wahanol mewn Rheoliadau neu bod darpariaethau datganedig i'r gwrthwyneb mewn deddfwriaeth arall.

Mae Rhan 2 o’r Cyfansoddiad yn nodi cylch gorchwyl y Cyngor, Pwyllgorau’r Cyngor a’r Cabinet. Yn gryno, mae’r Cyngor yn gyfrifol am y canlynol:

- Pennu'r fframwaith polisi a'r gyllideb a swyddogaethau cyfansoddiadol a lled-ddeddfwriaethol eraill.

- Swyddogaethau sy’n ymwneud â phenderfynu ar gais gan berson am gymeradwyo trwydded, cydsyniad, caniatâd neu gofrestriad (gan gynnwys caniatâdau cynllunio a chydsyniadau penodol) neu reoleiddio person yn uniongyrchol (ac eithrio mewn achosion lle mai dim ond disgresiwn cyfyngedig sydd wrth gyflawni’r swyddogaeth) ynghyd ag unrhyw gamau gorfodi cysylltiedig (gan gynnwys erlyniadau).

- Cyfrifoldeb y Weithrediaeth fydd yr holl swyddogaethau eraill nad ydynt yn swyddogaethau trosolwg a chraffu.

O fewn y fframwaith hwn, rôl yr Aelodau yw canolbwyntio ar benderfyniadau strategaeth a pholisi eang. Rhaid i reolwyr gael rheolaeth glir ac awdurdod i weithredu'r penderfyniadau hynny.

Mae’n rhan o rôl yr Aelodau i godi pryderon, yn enwedig rhai etholwyr, a thynnu sylw y Prif Swyddogion at faterion sy’n peri pryder ynghylch unrhyw elfen o wasanaeth. Bydd y Prif Swyddogion yn ystyried pryderon a sylwadau'r Aelodau wrth gydnabod eu cyfrifoldeb i reoli'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn unol â fframwaith polisi'r Cyngor.

## Y Weithdrefn

1. Y Prif Swyddogion at ddibenion y Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau yw’r rhai a nodir isod:

   - Prif Weithredwr (Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig)
   - Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc
   - Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau
   - Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
   - Prif Swyddog – Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Swyddog Polisi a Monitro Corfforaethol

   Bydd y Prif Weithredwr yn ymgymryd â'i swyddogaethau ond, os yw'n absennol neu'n methu â gweithredu fel arall, mae gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol a nodir gan y Prif Weithredwr o bryd i'w gilydd yr hawl i wneud hynny.

2. Bydd y Prif Swyddogion a/neu'r Aelodau sy’n gwneud penderfyniadau mewn cysylltiad â chyflawni’r swyddogaethau a ddyrennir iddynt yn y cynllun dirprwyo hwn:

   (a) yn gwneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau dan sylw a budd y cyhoedd;

(b) yn ystyried unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eraill y Cyngor, yn enwedig gan y canlynol:

(i) Prif Swyddog Cyllid y Cyngor yn gweithredu yn unol â dyletswyddau'r Swyddog hwnnw o dan Adran 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

(ii) Swyddog Monitro’r Cyngor yn gweithredu yn unol â dyletswyddau’r Swyddog hwnnw o dan Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, sef yr unigolyn y dylid ymgynghori ag ef os oes unrhyw amheuaeth ynghylch pŵer y Cyngor i weithredu, neu amheuaeth p’un a yw’r camau a gynigir yn gorwedd o fewn y fframwaith polisi y cytunwyd arno gan y Cyngor; lle gallai canlyniadau cyfreithiol gweithredu neu fethu gweithredu gan y Cyngor gael ôl-effeithiau pwysig;

(c) yn cydymffurfio ag unrhyw amodau neu gyfyngiadau a osodwyd naill ai gan y Cyngor neu'r Cabinet wrth iddynt arfer eu disgresiwn;
a

(d) yn ystyried unrhyw benderfyniad blaenorol gan y Cyngor neu'r Cabinet mewn perthynas ag unrhyw bolisïau neu weithdrefnau perthnasol.

3. Wrth gyflawni’r swyddogaethau a ddyrennir iddynt, bydd y Prif Swyddogion a/neu'r Aelodau yn cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefnol Contractau a Rheolau Gweithdrefnol Ariannol y Cyngor yn o Gyfansoddiad y Cyngor, ac ni fyddant yn cyflawni unrhyw swyddogaeth pe bai gwneud hynny’n peri'r canlynol:

(a) tynnu gwariant refeniw, oni bai ei fod yn cael ei dynnu yn unol ag amcangyfrifon refeniw cymeradwy'r Cyngor neu'r darpariaethau sy'n ymwneud â throsglwyddo cyllid sydd wedi'u cynnwys yn y Rheolau Gweithdrefnol Ariannol yn o Gyfansoddiad y Cyngor; neu

(b) tynnu gwariant cyfalaf, ac eithrio gwariant cyfalaf i gaffael tir neu wneud gwaith rhagarweiniol neu ddylunio neu wariant mewn cysylltiad â chynllun sy'n ymddangos yn amcangyfrifon cyfalaf cymeradwy'r Cyngor.

4. Bydd dyrannu swyddogaeth ar ran yr Awdurdod i Brif Swyddog a/neu Aelod ym mhob achos yn cynnwys y pŵer i ddefnyddio ar ran y Cyngor a/neu’r Cabinet unrhyw bŵer statudol sydd ar gael i’r Cyngor fel awdurdod lleol a fydd yn hwyluso’r broses o gyflawni'r swyddogaeth a ddyrannwyd.

5. Caiff unrhyw Brif Swyddog neu Aelod y dyrennir swyddogaeth iddo wrthod gwneud penderfyniad mewn cysylltiad â chyflawni’r swyddogaeth honno mewn perthynas ag unrhyw fater penodol a chaiff yn lle hynny gyfeirio’r mater at y corff penderfynu perthnasol. Enghraifft o sefyllfa o'r fath fyddai pan ystyrir bod y mater yn arbennig o ddadleuol yn wleidyddol neu lle byddai canlyniad y penderfyniad a wneir yn debygol o gael mwy o effaith.

6. Gall Prif Swyddog Cyllid y Cyngor a/neu Swyddog Monitro’r Cyngor fynnu bod unrhyw Brif Swyddog neu Aelod yn rhoi’r gorau i gyflawni’r holl swyddogaethau neu unrhyw rai o’r swyddogaethau a neilltuwyd i’r Swyddog hwnnw hyd nes y cyflwynir adroddiad i gyfarfod nesaf y Cyngor a/neu’r Cabinet.

7. Cyn gwneud penderfyniad yn unol â Chynllun A a/neu Gynllun B1 y Cynlluniau Dirprwyo, bydd y Prif Swyddog a/neu’r Aelod Cabinet sy’n bwriadu gwneud y penderfyniad yn gwneud y canlynol:

(a) llenwi'r ffurflen benodedig ac anfon copi at Swyddog Priodol y Cyngor ar gyfer Pwyllgorau i'w alluogi i sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i'w harchwilio gan Aelodau'r Cyngor yn gyffredinol;

(b) peidio â gwneud penderfyniad terfynol mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaeth ddyranedig y Cyngor a/neu'r Cabinet hyd nes y bydd cyfnod o bum diwrnod gwaith, ac eithrio'r diwrnod y'i hanfonwyd, wedi mynd heibio o'r dyddiad yr anfonwyd y ffurflen ragnodedig at y Swyddog Priodol ar gyfer Pwyllgorau;

(c) cymryd i ystyriaeth unrhyw farn a fynegwyd gan unrhyw Aelod o'r Cyngor mewn perthynas â'r penderfyniad arfaethedig yn ogystal ag unrhyw farn a fynegwyd gan Aelod(au) y Cyngor a/neu Swyddog(ion) y Cyngor a oedd wedi'u nodi fel ymgynghorai/ymgyngoreion.

8. Ni fydd paragraff 7 uchod yn berthnasol mewn perthynas â phenderfyniad a wneir gan:

(a) y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau ar unrhyw fater yn ymwneud â swyddogaethau cynllunio at argyfwng y Cyngor na all, am resymau brys, aros tan gyfarfod nesaf y Cabinet; neu

(b) swyddog, wrth arfer swyddogaeth a ddyrennir i'r swyddog hwnnw o dan y Cynllun hwn, i awdurdodi setlo achosion sifil a/neu droseddol, p'un ai a ydynt wedi cychwyn neu y mae disgwyl iddynt gychwyn neu i dynnu'n ôl neu derfynu achosion sifil neu droseddol; neu

(c) Aelod Cabinet sy'n arfer swyddogaeth sy'n dod o fewn portffolio'r Aelod Cabinet (heblaw am benderfyniadau sy'n groes i'r Fframwaith Polisi neu'n groes i'r Gyllideb gymeradwy neu ddim yn gwbl unol â hi) a fyddai, pe bai oedi, yn niweidio'n ddifrifol fuddiannau'r Cyngor neu fuddiannau'r cyhoedd, yn amodol ar ofynion paragraff 17 o Reolau Gweithdrefnol Trosolwg a Chraffu; neu

(d) y Prif Weithredwr neu, os yw'n absennol neu'n methu â gweithredu fel arall, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a nodir gan y Prif Weithredwr o bryd i'w gilydd na all, am resymau brys, aros am gyfarfod nesaf y Cyngor neu unrhyw Bwyllgor neu gorff arall y mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r swyddogaeth y mae angen gwneud penderfyniad yn ei chylch iddo (ac eithrio penderfyniad y mae'n rhaid i'r Cyngor ei hun yn gyfreithiol ei wneud), yn amodol ar ymgynghori â'r canlynol:

- Cadeirydd unrhyw bwyllgor neu gorff arall y mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r swyddogaeth y mae angen gwneud penderfyniad yn ei chylch neu, os nad oes pwyllgor neu gorff arall o'r fath, y Maer;

- Arweinydd(ion) pob grŵp gwleidyddol y mae aelodau'r Cyngor wedi'u rhannu iddynt;

- Y Prif Swyddog(ion) (os oes rhai) sy'n gyfrifol am y swyddogaeth y mae angen gwneud penderfyniad yn ei chylch.

9. Bydd pob Prif Swyddog neu Aelod Cabinet wrth wneud penderfyniad ar ôl dilyn y weithdrefn a nodir yn paragraff 7 uchod, gyda thystiolaeth o wneud hynny, yn sicrhau bod manylion llawn y penderfyniad yn cael eu cwblhau ar y ffurflen ragnodedig mewn perthynas â'r penderfyniad terfynol.

10. Bydd pob Prif Swyddog neu Aelod Cabinet wrth wneud penderfyniad o dan Gynllun B2 yn sicrhau bod manylion llawn y penderfyniad yn cael eu cwblhau ar y ffurflen ragnodedig mewn perthynas â'r penderfyniad terfynol.

11. Bydd y Swyddog a/neu'r Aelod sy'n gwneud y penderfyniad yn llofnodi'r ffurflen ragnodedig.

12. Bydd y cofnod ysgrifenedig o benderfyniad arfaethedig a/neu wirioneddol, y ffurflen ragnodedig, yn cael ei gadw am gyfnod o chwe blynedd o ddyddiad y penderfyniad.

13. Ar ôl cwblhau'r ffurflen ragnodedig mewn perthynas â phenderfyniad arfaethedig a/neu benderfyniad gwirioneddol, bydd copi o'r ffurflen ragnodedig yn cael ei anfon gan y Prif Swyddog a/neu'r Aelod Cabinet a wnaeth y penderfyniad:

    (a) at y Swyddog Priodol ar gyfer Pwyllgorau:

    (b) Bydd y Swyddog Priodol ar gyfer Pwyllgorau yn rhoi copi i Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu sy'n gyfrifol am graffu ar benderfyniadau a wnaed mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaeth y Cabinet y gwnaed y penderfyniad mewn perthynas â hi.

14. Er bod penderfyniadau a wneir yn unol â Chynllun A a Chynllun B1 y Cynllun Dirprwyo, ac eithrio'r penderfyniadau a nodir yn paragraff 8 uchod, yn amodol ar gael eu galw i mewn gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, a nodir y weithdrefn ar gyfer hyn yn o'r Cyfansoddiad, nid oes rhaid i benderfyniadau a wneir yn unol â Chynllun B2 y Cynllun Dirprwyo gael eu galw i mewn.

15. Os bydd unrhyw Aelod o'r Cyngor neu Swyddog y Cyngor sydd wedi'i ddynodi yn ymgynghorai yn yr Atodlen atodedig yn absennol neu am unrhyw reswm arall yn methu â gweithredu fel ymgynghorai, gall yr Aelod o'r Cyngor neu'r Swyddog Cyngor enwebu'n ysgrifenedig Aelod neu Swyddog arall o'r Cyngor (yn ôl y digwydd) i weithredu fel ymgynghorai yn ei le.

**<u>Pwerau Cyffredinol Prif Swyddogion</u>**

Mae gan y Prif Weithredwr a'r holl Brif Swyddogion y pwerau cyffredinol a nodir isod. Yn ogystal, maent wedi'u hawdurdodi i gyflawni swyddogaethau penodol y Cyngor a'r Weithrediaeth sydd wedi'u dirprwyo iddynt yng Nghynlluniau B1 a B2.

<u>Dim ond mewn cysylltiad â'r swyddogaethau a weinyddir gan eu Cyfarwyddiaeth/Swyddfa, y mae gan Brif Swyddogion y pŵer i:</u>

1. Ymgymryd â'r canlynol:-

    (a) y gwaith o reoli eu Cyfarwyddiaeth/Swyddfa o ddydd i ddydd, gan gynnwys: y gwaith o adolygu cyfarwyddiaethau, adrannau ac isadrannau eraill o'r sefydliad, a'r gwaith o ddiwygio'r strwythur staffio presennol y gellir ei ariannu o fewn y cyllidebau presennol a/neu gyda budd unrhyw arian ychwanegol a gaiff ei dderbyn; cymeradwyo rhestrau byr ar gyfer penodiadau parhaol a thros dro i bob swydd o fewn eu cyfarwyddiaethau priodol, ac eithrio'r rhai sy'n gyfrifoldeb Aelodau yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006, a gwneud y penodiadau hynny; penderfynu ar geisiadau gan staff am absenoldeb arbennig.

1.1 yn unol ag adran 222 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwneud sylwadau er budd y trigolion mewn unrhyw ymchwiliad cyhoeddus a gynhelir gan neu ar ran unrhyw Weinidog neu gorff cyhoeddus o dan unrhyw ddeddfiad, yn enw'r Cyngor.

1.2 arfer pwerau statudol y Cyngor i fynd ar dir ac eiddo at ddibenion archwilio, cynnal arolwg, gwneud unrhyw waith, ymchwilio i unrhyw fater, cymryd samplau neu at unrhyw ddiben arall y mae'r Cyngor wedi'i awdurdodi i'w wneud, ac i roi unrhyw hysbysiadau a all fod yn ofynnol mewn perthynas â hynny.

1.3 cael manylion personau sydd â buddiant mewn tir o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

1.4 gwneud trefniadau ar gyfer darparu cyflenwadau a gwasanaethau gan ac ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill (fel y'u diffinnir) o dan Ddeddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970 neu unrhyw ddeddfwriaeth alluogi arall ar yr amod bod y trefniadau'n cydymffurfio â rheoliadau caffael.

1.5 arfer trosglwyddiadau o fewn y terfynau ariannol sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau Ariannol.

1.6 llofnodi unrhyw ddogfen ar ran y Cyngor / Cabinet er mwyn gwireddu unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cyngor / Cabinet sydd o fewn swyddogaethau'r gyfarwyddiaeth pan gânt eu hawdurdodi i wneud hynny.

1.7 penderfynu ar geisiadau am Fudd-dal Tai (gan gynnwys Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai) a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar yr amod bod y penderfyniad yn cael ei gofnodi ar y ffeil.

1.8 asesu angen y bobl a all fod angen gwasanaethau gofal ac, os yw'n briodol, asesu gallu'r gofalwyr i ddarparu gofal; penderfynu, ar sail yr asesiad, pa wasanaethau, os o gwbl, y dylid eu darparu i ddiwallu'r anghenion hynny; a chymryd pob cam angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaethau hynny, gan gynnwys gwneud contractau ar gyfer eu darparu.

1.9 Penderfynu ar y flaenoriaeth a roddir i geisiadau unigol i'r Gofrestr Tai ac enwebu ymgeiswyr am lety gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn unol â pholisïau'r Cyngor.

1.10 Penderfynu ar geisiadau gan berchenogion/meddianwyr i'r Gofrestr Tai, yn unol â pholisïau'r Cyngor.

1.11 Penderfynu ar geisiadau am dai nad ydynt efallai'n cydymffurfio'n llawn â gofynion Cofrestr Tai a Rheolau Dyrannu Tai'r Cyngor ond yr ystyrir eu bod o natur arbennig o frys neu sensitif.

1.12 Cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig yn unol ag Adran 95A ac Atodlen 4B o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, i gynnig y cyfle i ryddhau atebolrwydd i euogfarn am drosedd drwy dalu cosb.

2. Mae'r Cynllun Dirprwyo yn cael blaenoriaeth dros unrhyw un o'r darpariaethau uchod. Ni chaiff unrhyw beth a gynhwysir ym mharagraff 1 ei ddefnyddio pan fydd yn gwrthdaro â Chynllun A.

3. Gall pob Prif Swyddog awdurdodi'n ysgrifenedig unrhyw Swyddog neu Swyddogion eraill o'r Cyngor, a nodir naill ai yn ôl eu henw, neu drwy gael eu dynodi neu drwy gyfeirio at eu swydd, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol at y diben, i arfer unrhyw un neu bob un o'r pwerau a awdurdodwyd i'w harfer ganddynt, ac eithrio'r pŵer hwn, ar yr amod:

(a) bod y swyddog yn adrodd i'r dirprwywr neu'n atebol iddo;

(b) bod gan y swyddog gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad priodol;

(c) bod y swyddogaethau sydd i'w harfer o fewn maes cyfrifoldeb y swyddog hwnnw;

(d) ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol ar gyfer cyflawni gwasanaeth o ddydd i ddydd yn effeithiol, ac

(e) Ei bod yn gyfreithlon gwneud hynny.

3.1 Rhaid i Brif Swyddogion baratoi cynllun ysgrifenedig yn awdurdodi unrhyw swyddogion eraill i arfer pwerau o'r fath. Bydd Prif Swyddogion yn parhau i fod yn atebol am unrhyw gamau gweithredu neu benderfyniadau a wneir yn dilyn rhoi awdurdod o'r fath a byddant yn darparu copi o'r Cynllun i'r Swyddog Monitro.

3.2 I osgoi amheuaeth, pan fo is-swyddog o dan y cynllun hwn yn arfer pŵer, dyletswydd neu swyddogaeth a ddirprwywyd iddo gan swyddog arall, awdurdodir y weithred o ddirprwyo drwy hyn fel pe bai'r Cyngor / Cabinet yn ei dirprwyo'n uniongyrchol ac yn benodol.

4. Os bydd swydd Prif Swyddog yn wag neu os na fydd y Prif Swyddog ar gael, yna, yn amodol ar unrhyw drefniadau y darperir ar eu cyfer mewn unrhyw gynllun dirprwyo a baratowyd gan Brif Swyddog o dan baragraff 3 uchod, gall y Penaethiaid Gwasanaethau perthnasol arfer pwerau dirprwyedig y Prif Swyddog hwnnw o fewn y Gyfarwyddiaeth honno i'r graddau a ganiateir gan y gyfraith.

5. Os na fydd y Prif Weithredwr ar gael, yn amodol ar unrhyw drefniadau y darperir ar eu cyfer mewn unrhyw gynllun dirprwyo a baratowyd gan y Prif Weithredwr o dan baragraff 3 uchod, gall y Cyfarwyddwr Corfforaethol a nodir gan y Prif Weithredwr arfer pwerau dirprwyedig y Prif Weithredwr o bryd i'w gilydd.

6. Nid yw dirprwyo yn ymestyn i unrhyw gamau sy'n effeithio ar Gyfarwyddiaeth arall o'r Awdurdod neu sy'n ymwneud â swyddogaethau Cyfarwyddiaeth, Adran neu Swyddog Unigol y tu allan i Gyfarwyddiaeth y Prif Swyddog.

# CYNLLUN A

# SWYDDOGAETHAU'R CABINET A DDIRPRWYIR I AELODAU UNIGOL Y CABINET

Pan fydd pŵer dirprwyedig wedi'i ddyrannu i Aelod Cabinet unigol a bod yr Aelod hwnnw'n absennol neu fel arall yn methu â gweithredu, caiff y pŵer ei ddyrannu i'r Arweinydd ac yn absenoldeb yr Arweinydd i'r Dirprwy Arweinydd.

Mae unrhyw bŵer dirprwyedig yn cynnwys yr awdurdod i gymryd unrhyw gamau gweithredu sy'n gysylltiedig â chymhwyso'r pŵer dirprwyedig.

## 1. SWYDDOGAETHAU A DDYRENNIR I BOB AELOD CABINET

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| 1.1 | Yn ddarostyngedig i ofynion paragraff 18 o'r Rheolau Gweithdrefnol Trosolwg a Chraffu, gwneud penderfyniadau ar unrhyw faterion sy'n dod o fewn portffolio'r Aelod Cabinet (ac eithrio penderfyniadau sy'n groes i'r Fframwaith Polisi neu sy'n groes i'r Gyllideb gymeradwy neu ddim yn gwbl unol â hi) a fyddai, o oedi gwneud y penderfyniad, yn niweidio buddiannau'r Cyngor neu fuddiannau'r cyhoedd yn ddifrifol. |
| 1.2 | Yn unol â'r gwerthoedd a nodir yn Rheolau Gweithdrefnol Contractau'r Cyngor:<br><br>(a) Awdurdodi gwahoddiadau i dendro; a<br>(b) Derbyn y Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd a dderbyniwyd ac ymrwymo i Gontract ac unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n atodol i'r Contract;<br>(c) Ymrwymo i Gontract a/neu unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n atodol i'r Contract yn unol ag unrhyw hepgoriad a ganiateir o dan Reolau Gweithdrefnol Contract y Cyngor. |
| 1.3 | Mewn cysylltiad â gwasanaethau sy'n dod o fewn portffolio'r Aelod Cabinet, awdurdodi cyflwyno tendrau ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwaith neu wasanaethau i awdurdod lleol arall neu gorff cyhoeddus yn unol â'r pwerau a roddwyd i'r Cyngor gan Ddeddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970 pan fo gwerth amcangyfrifedig y tendr arfaethedig yn fwy na £1,000,000 ond heb fod yn fwy na £5,000,000. |
| 1.4 | Awdurdodi gwaredu nwyddau dros ben a gafaelwyd mewn cysylltiad â gwasanaethau sy'n dod o fewn portffolio'r Aelod Cabinet sydd â chyfanswm gwerth amcangyfrifedig sydd yn fwy na £100,000 ond heb fod yn fwy na £200,000. |
| 1.5 | Datgan nad oes angen unrhyw dir neu adeiladau a ddefnyddir mewn cysylltiad â gwasanaethau sy'n dod o fewn portffolio'r Aelod Cabinet. |
| 1.6 | Cymeradwyo, yn amodol ar ddilyn proses y gyllideb:<br><br>(1) Ffioedd a thaliadau am wasanaethau newydd yn unol ag unrhyw bolisi codi tâl perthnasol a gymeradwyir gan y Cabinet; a<br>(2) Yr holl ffioedd a thaliadau sy'n unol ag unrhyw bolisi codi tâl perthnasol a gymeradwyir gan y Cabinet ac sy'n angenrheidiol i adlewyrchu naill ai chwyddiant neu gynnydd mewn costau. |
| 1.7 | Awdurdodi penodi ymgynghorwyr sy'n darparu gwasanaeth proffesiynol yr amcangyfrifir y bydd eu ffioedd yn fwy na £100,000. |

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| 1.8 | Cyflwyno ymateb ffurfiol ar ran y Cyngor Bwrdeistref Sirol i unrhyw Bapur neu Gylchlythyr gan y Llywodraeth ac unrhyw gyfarwyddeb ddrafft gan yr Undeb Ewropeaidd. |

## 2. SWYDDOGAETHAU A DDYRENNIR I'R DIRPRWY ARWEINYDD AC AELOD Y CABINET DROS ADNODDAU

| | **Swyddogaeth a Ddyrennir** |
|---|---|
| 2.1 | Awdurdodi arfer yr hawliau rhagbrynu a freiniwyd yn y Cyngor. |
| 2.2 | Dyrannu arian Rhaglen Gyfalaf i Gynghorau Tref a Chymuned i hwyluso prosiectau cymunedol, ar argymhelliad y Prif Swyddog Cyllid. |
| 2.3 | Cymeradwyo uchafswm y cyllid i fudiadau gwirfoddol lle mae swm y cyllid yn fwy na £50,000. |

## 3. SWYDDOGAETHAU A DDYRANWYD I AELOD Y CABINET – ADFYWIO, DATBLYGU ECONOMAIDD A THAI

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| 3.1 | (a) Cymeradwyo gwneud ceisiadau am orchmynion yn unol ag Adran 116 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac Adrannau 247, 248 a 249 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a chymeradwyo gwneud, addasu neu amrywio gorchmynion yn unol ag unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir yn y deddfiadau a ganlyn (neu unrhyw addasiad statudol, ailddeddfiad neu ddiwygiad ohonynt):<br>Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984;<br>Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994;<br>Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847;<br><br>(b) Cadarnhau, lle mae gan y Cyngor bŵer i wneud hynny, unrhyw Orchymyn arfaethedig a wnaed yn unol â pharagraff (a) uchod nad oes gwrthwynebiadau iddo neu y tynnir unrhyw wrthwynebiadau iddo yn ôl;<br><br>(c) Lle nad oes gan y Cyngor y pŵer i benderfynu ar unrhyw Orchymyn arfaethedig i gyfeirio'r Gorchymyn arfaethedig at y cyfryw gorff penderfynu (h.y. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llys yr Ynadon neu'r Llys Sirol) fel sy'n briodol o dan yr amgylchiadau. |
| 3.2 | Penderfynu ar enw stryd a/neu rifau eiddo ar stryd, neu newid neu amrywio enw stryd a/neu rifau eiddo ar stryd, yn unol â darpariaethau perthnasol Deddf Cymalau Gwella Trefi 1847 a Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925, ac awdurdodi unrhyw gamau gweithredu a ystyrir yn briodol o ganlyniad i wneud penderfyniad o’r fath. |
| 3.3 | Penderfynu ar geisiadau i ddefnyddio meysydd parcio’r Cyngor at ddibenion nad ydynt wedi’u hawdurdodi gan y Gorchymyn Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd perthnasol ac atal y defnydd o unrhyw le parcio neu ran ohono pan ystyrir bod hynny'n briodol. |

| | Swyddogaethau a Ddyrennir |
|---|---|
| | |
| 3.4 | Cymeradwyo uchafswm y cyllid i fudiadau gwirfoddol pan fo swm y cyllid yn fwy na £50,000. |
| 3.5 | Penderfynu p'un a ddylai gorchmynion arfaethedig yn unol ag unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir yn y deddfiadau a restrir isod (neu unrhyw addasiad statudol, ailddeddfiad neu ddiwygiad iddynt) y mae gwrthwynebiadau a/neu sylwadau wedi dod i law gael eu gwneud fel y'u cynigir ai peidio; cyfeirio (lle bo angen) unrhyw orchymyn arfaethedig at ymchwiliad cyhoeddus lleol; diwygio neu addasu unrhyw orchymyn arfaethedig; neu i gadarnhau'r gwrthwynebiadau a thynnu unrhyw orchymyn arfaethedig yn ôl:<br><br>(i) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984;<br>(ii) Deddf Rheoli Traffig 2004 |
| 3.6 | Penderfynu p'un a ddylai unrhyw ddarpariaeth traffig arfaethedig sydd i'w gweithredu yn unol â Deddf Priffyrdd 1980 / Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 Adran 23 (neu unrhyw addasiadau statudol, ailddeddfiadau neu ddiwygiadau ohonynt) y cafwyd gwrthwynebiadau a/neu sylwadau mewn perthynas â hi gael ei gweithredu fel y'i cynigir ai peidio; cyfeirio (lle bo angen) unrhyw ddarpariaeth traffig arfaethedig at ymchwiliad cyhoeddus lleol; diwygio neu addasu unrhyw ddarpariaeth traffig arfaethedig; neu gadarnhau'r gwrthwynebiadau a thynnu'n ôl unrhyw ddarpariaeth traffig arfaethedig. |

## 4. SWYDDOGAETHAU A DDYRANNU I'R AELOD CABINET - GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, IECHYD A LLESIANT

| | Swyddogaethau a Ddyrennir |
|---|---|
| 4.1 | Cymeradwyo unrhyw addasiadau yn lefel y ffioedd a delir am leoliadau a wneir mewn Cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio yn y Sector Annibynnol yn y Fwrdeistref Sirol. |
| 4.2 | Cymeradwyo lefelau uchafswm cyllid i fudiadau gwirfoddol sy'n ddarostyngedig i gytundeb gwasanaeth ffurfiol pan fo swm y cyllid yn fwy na £50,000. |
| 4.3 | Cymeradwyo unrhyw addasiadau yn lefelau grantiau, ffioedd a lwfansau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a'u gofalwyr mewn perthynas â: Gofal Maeth Plant; Gofal Preswyl; Gwasanaethau Mabwysiadu; Gwasanaethau Ôl-ofal; Gwasanaethau Gofal Seibiant: Gyrwyr Gwirfoddol. |

## 5. SWYDDOGAETHAU A DDYRANNU I'R AELOD CABINET - GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, IECHYD A LLESIANT

| | Swyddogaethau a Ddyrennir |
|---|---|
| 5.1 | Mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd, penodi llywodraethwyr ysgolion AALl ychwanegol i gefnogi ysgolion sy'n peri pryder. |

# CYNLLUN B1

# SWYDDOGAETHAU A DDIRPRWYIR I BRIF SWYDDOGION SY'N DESTUN YMGYNGHORI A GALW I MEWN

## 1. SWYDDOGAETHAU A DDIRPRWYIR I BOB PRIF SWYDDOG

## A. SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR / CABINET:

| | Swyddogaethau Dirprwyedig | Ymgynghorai/Ymgyngoreion |
|---|---|---|
| 1.1 | Awdurdodi gwaredu nwyddau dros ben a gafaelwyd mewn cysylltiad â gwasanaethau y mae'r Prif Swyddog dan sylw yn gyfrifol amdanynt sydd ag amcangyfrif o gyfanswm gwerth sydd yn fwy na £50,000 ond heb fod yn fwy na £100,000. | (1) **SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR** Cadeirydd unrhyw bwyllgor neu gorff arall y mae'r Cyngor hefyd wedi dirprwyo'r swyddogaeth iddo sy'n cynnwys y gwasanaeth y caffaelwyd y nwyddau mewn cysylltiad ag ef neu, os nad oes pwyllgor neu gorff arall o'r fath, y Maer<br><br>(2) **SWYDDOGAETHAU'R CABINET** Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 1.2 | Awdurdodi penodi ymgynghorwyr sy'n darparu gwasanaeth proffesiynol yr amcangyfrifir y bydd eu ffioedd yn fwy na £50,000 ond heb fod yn fwy na £100,000 | (1) **SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR** Cadeirydd unrhyw Bwyllgor neu gorff arall y mae'r Cyngor hefyd wedi dirprwyo'r swyddogaeth iddo sy'n cynnwys y gwasanaeth y bydd y ffioedd neu'r taliadau yn daladwy ar ei gyfer neu, os nad oes pwyllgor neu gorff arall o'r fath, y Maer<br><br>(2) **SWYDDOGAETHAU'R CABINET** Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |

## B. SWYDDOGAETHAU'R CABINET:

| | Swyddogaethau Dirprwyedig | Ymgynghorai/Ymgyngoreion |
|---|---|---|
| 1.3 | Awdurdodi cyflwyno tendrau ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwaith neu wasanaethau i awdurdod lleol arall neu gorff cyhoeddus yn unol â'r pwerau a roddwyd i'r Cyngor gan Ddeddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970 pan fo gwerth amcangyfrifedig y tendr arfaethedig yn fwy na £100,000 ond heb fod yn fwy na £1,000,000. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |

| | Swyddogaethau Dirprwyedig | Ymgynghorai/Ymgyngoreion |
|---|---|---|
| 1.4 | Cymeradwyo lefelau uchafswm cyllid i fudiadau gwirfoddol sy'n destun cytundeb gwasanaeth ffurfiol pan fo swm y cyllid yn fwy na £10,000 ond heb fod yn fwy na £50,000. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 1.5 | Cymeradwyo lefelau uchafswm cyllid i fudiadau gwirfoddol pan fo swm y cyllid yn fwy na £10,000 ond heb fod yn fwy na £50,000. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |

**2. SWYDDOGAETHAU A DDYRENNIR I'R PRIF WEITHREDWR (NEU OS YW'N ABSENNOL NEU'N METHU GWEITHREDU FEL ARALL, I'R CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL A NODWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR O BRYD I'W GILYDD)**

**A. SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR:**

| | Swyddogaethau Dirprwyedig | Ymgynghorai/Ymgyngoreion |
|---|---|---|
| 2.1 | Gwneud penderfyniad ar unrhyw fater na all, am resymau brys, aros tan gyfarfod nesaf y Cyngor neu gyfarfod unrhyw Bwyllgor neu gorff arall y mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r swyddogaeth y mae angen penderfyniad mewn cysylltiad ag ef (ac eithrio penderfyniad y mae'n rhaid i'r Cyngor ei hun yn gyfreithiol ei wneud). | (1) Cadeirydd unrhyw bwyllgor neu gorff arall y mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r swyddogaeth y mae angen y penderfyniad mewn perthynas ag ef neu, os nad oes pwyllgor neu gorff arall o'r fath, y Maer;<br>(2) Arweinydd(ion) pob grŵp gwleidyddol y mae aelodau'r Cyngor wedi'u rhannu iddynt;<br>(3) Y Cyfarwyddwr/Cyfarwyddwyr) Corfforaethol (os oes un) sy'n gyfrifol am y swyddogaeth y mae angen y penderfyniad ar ei chyfer |

| | Swyddogaethau Dirprwyedig | Ymgynghorai/Ymgyngoreion |
|---|---|---|
| 2.2 | Awdurdodi gwariant ychwanegol o fewn y rhaglen gyfalaf ar gyfer cynlluniau newydd neu gynlluniau presennol, yn amodol ar uchafswm o £100,000 ac argaeledd cyllid, na all, am resymau brys, aros tan gyfarfod nesaf y Cyngor. | (1) Cadeirydd unrhyw bwyllgor, neu gorff arall y mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r swyddogaeth iddo y mae angen y penderfyniad mewn perthynas â hi, neu, os nad oes pwyllgor neu gorff arall o'r fath, y Maer;<br>(2) Y Swyddog Adran 151; |

| | | |
|---|---|---|
| | | (3) Y Swyddog Monitro (dim ond os yw'r ddirprwyaeth wedi'i his-ddirprwyo i'r Swyddog Adran 151).<br><br>(4) Yr Arweinydd, neu yn ei absenoldeb, yr Aelod Cabinet priodol |

**3. SWYDDOGAETHAU A DDYRENNIR I'R SWYDDOG MONITRO**

**B. SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR / CABINET:**

| | Swyddogaethau Dirprwyedig | Ymgynghorai/Ymgyngoreion |
|---|---|---|
| 3.1 | Cyfarwyddo cwnsler neu gyflogi cyfreithwyr allanol mewn cysylltiad ag unrhyw fater cyfreithiol sy'n effeithio ar y Cyngor pan amcangyfrifir y bydd y gost o wneud hynny yn fwy na £100,000. | **SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR**<br>Cadeirydd unrhyw bwyllgor neu gorff arall y mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r swyddogaeth iddo y bwriedir cyfarwyddo cwnsler mewn perthynas â hi neu, os nad oes pwyllgor neu gorff arall o'r fath, y Maer.<br><br>**SWYDDOGAETHAU'R CABINET**<br>Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 3.2 | Awdurdodi setlo achosion sifil a/neu droseddol p'un ai a ydynt wedi cychwyn neu y mae disgwyl iddynt gychwyn pan fo'r swm sy'n daladwy gan neu i'r Cyngor yn fwy na £100,000. | **SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR**<br>Cadeirydd unrhyw bwyllgor neu gorff arall y mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r swyddogaeth y mae'r setliad arfaethedig yn ymwneud â hi neu, os nad oes pwyllgor neu gorff arall o'r fath, y Maer.<br>**SWYDDOGAETHAU'R CABINET**<br>Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |

**C. SWYDDOGAETHAU'R CABINET:**

| | Swyddogaethau Dirprwyedig | Ymgynghorai/Ymgyngoreion |
|---|---|---|
| 3.3 | Arfer y swyddogaethau a nodir yn Neddf Delwyr Metel Sgrap 2013 | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 3.4 | Pennu dyfarniad Grantiau Oes Gyfan Dewisol ar gyfer Cyfleusterau i'r Anabl, a dyfarnu'r Grantiau Atodol ar gyfer Cyfleusterau i'r Anabl sy'n weddill, yn unol â Pholisi Adnewyddu Tai ac Addasiadau i'r Anabl y Sector Preifat | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |

| | Swyddogaethau Dirprwyedig | Ymgynghorai/Ymgyngoreion |
|---|---|---|
| 3.5 | Cynyddu neu leihau unrhyw un o’r cyfraddau sy’n daladwy ar gyfer unrhyw grantiau statudol a weinyddir o dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 ac unrhyw grantiau anstatudol a weinyddir o dan Bolisi Adnewyddu Tai Sector Preifat Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. | (1) Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol<br>(2) Y Prif Swyddog Cyllid |

**4. SWYDDOGAETHAU A DDYRENNIR I'R CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD**

**A. SWYDDOGAETHAU'R CABINET:**

| | Swyddogaethau Dirprwyedig | Ymgynghorai |
|---|---|---|
| 4.1 | Cyhoeddi a chyflwyno hysbysiad cyhoeddus o gynigion i agor a chau ysgolion ac ymgynghori â'r cyhoedd ar gynigion o'r fath. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 4.2 | Cymeradwyo ceisiadau am grantiau i fudiadau gwirfoddol yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cabinet neu'r Cyngor pan nad yw swm y grant yn fwy na £50,000. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |

**5. SWYDDOGAETHAU A DDYRENNIR I'R CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT**

**A. SWYDDOGAETHAU'R CABINET:**

| | Swyddogaethau Dirprwyedig | Ymgynghorai |
|---|---|---|
| 5.1 | Cymeradwyo ceisiadau am grantiau i fudiadau gwirfoddol yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cabinet neu'r Cyngor pan nad yw swm y grant yn fwy na £50,000. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 5.2 | Cyhoeddi a chyflwyno hysbysiad cyhoeddus o gynigion i agor a chau cyfleusterau hamdden ac ymgynghori â'r cyhoedd ar gynigion o'r fath. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 5.3 | Gweithredu swyddogaethau'r Cyngor o dan Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 sy'n ymwneud â phenodi aelodau newydd o Banel Maethu Pen-y-bont ar Ogwr o bryd i'w gilydd (ac eithrio penodi aelodau etholedig o'r Cyngor) pan fydd lleoedd gwag i'w llenwi. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| | | |

| | Swyddogaethau Dirprwyedig | Ymgynghorai |
|---|---|---|
| 5.4 | Gweithredu swyddogaethau'r Cyngor o dan Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 2005 sy'n ymwneud â phenodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ac aelodau Panel Mabwysiadu Pen-y-bont ar Ogwr o bryd i'w gilydd (ac eithrio penodi aelodau etholedig o'r Cyngor) pan fydd lleoedd gwag i'w llenwi. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |

## 6. SWYDDOGAETHAU A DDYRENNIR I'R CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – CYMUNEDAU

### A. SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR:

| | Swyddogaethau Dirprwyedig | Ymgynghorai |
|---|---|---|
| 6.1 | Darparu sylwadau ar gais Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â cheisiadau am garthu alltraeth a gyflwynwyd i Ystad y Goron o dan weithdrefn "Barn y Llywodraeth". | Cadeirydd neu, yn ei absenoldeb, Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu |

### B. SWYDDOGAETHAU'R CABINET:

| | Swyddogaethau a Ddyrennir | Ymgynghorai |
|---|---|---|
| 6.2 | Gwneud penderfyniad ar unrhyw fater yn ymwneud â swyddogaethau cynllunio at argyfwng y Cyngor na all, am resymau brys, aros tan gyfarfod nesaf y Cabinet. | Yr Arweinydd neu, yn ei absenoldeb, y Dirprwy Arweinydd |
| 6.3 | Awdurdodi gweithredu cynlluniau amwynder dinesig. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 6.4 | Ymgymryd â phrosiectau Rheoli Gwastraff Cynaliadwy yn y Fwrdeistref Sirol. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 6.5 | Cymeradwyo neu ddiwygio rhaglenni ar gyfer paratoi dogfennau polisi sy'n ofynnol gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 6.6 | Darparu sylwadau ar ran y Cyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gynigion i ddiwygio "Canllawiau Cynllunio Cymru" a Nodiadau Cyngor Technegol cysylltiedig. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 6.7 | Darparu sylwadau ar ran y Cyngor i adran briodol y Llywodraeth ar gynigion i ddiwygio polisi cynllunio ac amgylcheddol cenedlaethol. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 6.8 | Cychwyn prosiectau ar gyfer gwella a rheoli addysg amgylcheddol yn y Fwrdeistref Sirol. | |

| | Swyddogaethau a Ddyrennir | Ymgynghorai |
|---|---|---|
| | | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 6.9 | Cynyddu neu ostwng y ffioedd a godir o dan y Rheoliadau Adeiladu o ddim mwy na 10%. | (1) Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol<br>(2) Y Prif Swyddog Cyllid |
| 6.10 | Awdurdodi cyflawni cynlluniau Adfer Tir, Diogelu'r Arfordir a Draenio Tir pan nad yw'r gwerth amcangyfrifedig yn fwy na £100,000. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 6.11 | Adolygu terfynau rhagnodedig y cymorth ariannol a ddarperir o dan y cynlluniau grant a weithredir gan y Cyngor yn unol â'i bwerau datblygu economaidd. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 6.12 | Darparu sylwadau ar ran y Cyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gynigion i ddiwygio polisi a rheoliadau Priffyrdd a Chludiant. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 6.13 | Cyhoeddi a chyflwyno hysbysiadau cyhoeddus o gynigion i agor a chau cyfleusterau cymunedol ac ymgynghori â'r cyhoedd ar gynigion o'r fath. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 6.14 | Awdurdodi a chytuno ar delerau ar gyfer gwaredu tir ac adeiladau, boed hynny drwy werthu'r rhydd-ddaliad neu drwy roi les, i gydnabod talu premiwm pan nad yw'r gwerth amcangyfrifedig, wedi ystyried y pris gorau, yn fwy na £500,000. | (1) Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol<br>(2) Monitro<br>(3) Swyddog Adran 151 neu, yn achos is-ddirprwyo i'r Swyddog Adran 151, yna'r Dirprwy Swyddog Adran 151. |
| 6.15 | Awdurdodi, a chymeradwyo telerau, unrhyw les i'w rhoi i'r Cyngor neu gan y Cyngor yn gydnabyddiaeth o dalu rhent, gan gynnwys unrhyw rent sy'n daladwy sydd dros £100,000 y flwyddyn:<br>(a) gan y Cyngor; neu<br>(b) i'r Cyngor. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 6.16 | | |

| | Swyddogaethau a Ddyrennir | Ymgynghorai |
|---|---|---|
| | Awdurdodi a chytuno i ryddhau cyfamodau cyfyngol sydd o blaid neu'n rhwymo'r Cyngor sydd am symiau dros £50,000. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 6.17 | Awdurdodi a chytuno ar delerau ildio lesoedd gan y Cyngor neu i'r Cyngor, gan gynnwys talu neu dderbyn premiwm sydd dros £50,000. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |
| 6.18 | Awdurdodi, a chytuno ar delerau ar gyfer, gwaredu tir ac adeiladau sydd â gwerth amcangyfrifedig nad yw'n fwy na £300,000, am lai na'u gwerth pan ystyrir: Bod gwaredu er budd llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ardal gyfan yr Awdurdod neu unrhyw ran ohoni, neu unrhyw un neu bob un sy'n byw neu'n bresennol yn ardal yr Awdurdod; a bod gwaredu yn unol â'r Strategaeth Waredu a'r Canllawiau Trosglwyddo Asedau Cymunedol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod; a bod tanbrisiad y gwarediad yn llai na £300,000 ar yr amod nad yw gwaredu yn torri unrhyw ofynion Cymorth Gwladwriaethol. | 1) Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol<br>2) Swyddog Monitro<br>3) Swyddog Adran 151 neu, yn achos is-ddirprwyo i'r Swyddog Adran 151, yna'r Dirprwy Swyddog Adran 151. |
| 6.19 | Awdurdodi, a chytuno ar delerau ar gyfer, caffael tir neu adeiladau mewn cysylltiad â chynllun sy'n ymddangos yn amcangyfrifon cyfalaf cymeradwy'r Cyngor neu gategori penodol o gynllun sy'n ymddangos yn amcangyfrifon cyfalaf cymeradwy'r Cyngor, ar yr amod na fydd y caffaeliad yn fwy na'r amcangyfrif cyfalaf cyfanredol ar gyfer categori'r cynllun. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol. |
| 6.20 | Arfer unrhyw un o bwerau'r Cyngor mewn perthynas â Harbwr Porthcawl a gynhwysir yn Rhan V o Ddeddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987. | Yr Aelod Cabinet â'r swyddogaeth berthnasol |

# CYNLLUN B2

# SWYDDOGAETHAU A DDIRPRWYIR I BRIF SWYDDOGION HEB YMGYNGHORIAD A GALW I MEWN.

1. **SWYDDOGAETHAU A DDYRENNIR I BOB PRIF SWYDDOG**

A. **SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR / CABINET:**

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| 1.1 | Awdurdodi penodi ymgynghorwyr sy'n darparu gwasanaeth proffesiynol nad yw eu ffioedd yn fwy na £50,000. |
| 1.2 | Awdurdodi ceisiadau am gymorth grant i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff priodol eraill a derbyn y cymorth grant at ddibenion sy'n ymwneud â materion sy'n dod o fewn y Gyfarwyddiaeth. |
| 1.3<br><br>1.4 | Yn unol â'r gwerthoedd a nodir yn Rheolau Gweithdrefnol Contractau'r Cyngor:<br>(a) Awdurdodi gwahodd tendrau a;<br>(b) Derbyn y Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd a dderbyniwyd ac ymrwymo i Gontract, ac unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n atodol i'r Contract;<br>(c) Ymrwymo i Gontract a/neu unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n atodol i'r Contract yn unol ag unrhyw hepgoriad a ganiateir dan Reolau Gweithdrefnol Contract y Cyngor.<br><br>Cymeradwyo addasiad i Gontract neu Gytundeb Fframwaith presennol yn unol â Rheolau Gweithdrefnol Contractau'r Cyngor a'r gwerthoedd a nodir yn Rheolau Gweithdrefnol Contractau'r Cyngor i ymrwymo i unrhyw weithred neu ddogfennau sy'n ofynnol er mwyn gweithredu'r cyfryw addasiad. |

B. **SWYDDOGAETHAU'R CABINET:**

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| 1.5 | Awdurdodi gwaredu nwyddau dros ben a gaffaelwyd mewn cysylltiad â gwasanaethau y mae'r Prif Swyddog yn gyfrifol amdanynt sydd â chyfanswm gwerth amcangyfrifedig nad yw'n fwy na £50,000. |
| 1.6 | Awdurdodi cyflwyno tendrau ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwaith neu wasanaethau i awdurdod lleol arall neu gorff cyhoeddus yn unol â'r pwerau a roddwyd i'r Cyngor gan Ddeddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970 pan nad yw gwerth amcangyfrifedig y tendr arfaethedig yn fwy na £100,000. |
| 1.7 | Cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i gynorthwyo'r Cyngor i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodwyd o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro. |
| 1.8 | Cymeradwyo lefelau cyllid grant lle nad yw swm y cyllid yn fwy na £10,000 ac mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro ymrwymo i unrhyw gytundebau ariannu a/neu unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n atodol i'r trefniant ariannu. |

**2. SWYDDOGAETHAU A DDYRENNIR I'R PRIF WEITHREDWR**

**A. SWYDDOGAETHAU'R CABINET:**

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| 2.1 | Cymryd unrhyw gamau y mae gan y Cyngor bŵer i'w cymryd i adennill Ardrethi Annomestig Cenedlaethol a'r Dreth Gyngor, gan gynnwys cychwyn achos a chymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad â chynnal achosion. |
| 2.2 | Penderfynu ar y canlynol:<br>(a) ceisiadau am ryddhad ardrethi dewisol gan elusennau;<br>(b) ceisiadau am ryddhad ardrethi ar sail caledi. |
| 2.3 | Argymell i'r Swyddog Monitro gychwyn achos troseddol mewn perthynas â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Canfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013. |
| 2.4 | Cymryd unrhyw gamau y mae gan y Cyngor bŵer i'w cymryd i weinyddu cosbau ariannol yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013. |
| 2.5 | Cyfeirio achosion o amhriodoldeb ariannol gan staff y Cyngor neu aelodau etholedig i'r Heddlu i ymchwilio iddynt. |
| 2.6 | Penderfynu ar geisiadau gan bersonau neu gyrff am gymorth ariannol na ddirprwywyd y pŵer i unrhyw swyddog arall benderfynu arnynt. |
| 2.7 | Prynu offer ar ran yr holl gyfarwyddiaethau gan ddefnyddio benthyciad o dan y Cod Materion Ariannol, gan ystyried y Cynllun Partneriaeth Integredig Sengl. |
| 2.8 | Cymryd unrhyw gamau y mae gan y Cyngor yr hawl i'w cymryd i adennill rhenti, symiau sy'n ddyledus o dan forgeisi'r Cyngor ac incwm arall sy'n ddyledus i'r Cyngor, gan gynnwys argymell y Swyddog Monitro i gychwyn achos Llys Sirol. |
| 2.9 | Pennu cyfraddau llog morgeisi yn unol â gofynion statudol. |
| 2.10 | Penderfynu a chymeradwyo ceisiadau i drosglwyddo morgeisi'r Cyngor a cheisiadau gan forgeiswyr i ryddhau rhan o eiddo wedi'i forgeisi o'r morgais. |
| 2.11 | Penderfynu ar geisiadau i ail-forgeisio neu drosglwyddo morgais eiddo a brynwyd gyda chymorth o dan y Cynllun Homefinders, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro. |
| | |

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| 2.12 | Cymeradwyo ceisiadau am ganiatâd i drosglwyddo buddion morgais pan fo'n fodlon bod gan y trosglwyddai ddigon o adnoddau i dalu'r ad-daliadau morgais ac nad oes unrhyw ôl-ddyledion ar y cyfrif morgais. |
| 2.13 | Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud sy'n angenrheidiol ar gyfer gorfodi Adran 117 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac argymell i'r Swyddog Monitro y dylid cychwyn achos troseddol sy'n deillio o dorri'r darpariaethau hynny mewn unrhyw fodd. |
| 2.14 | Penderfynu ar ddyfarnu Grantiau Gorfodol Cyfleusterau i'r Anabl a'r holl Grantiau a Benthyciadau Dewisol, a phenderfynu ar dalu ffioedd rhesymol a phriodol mewn cysylltiad â hynny, yn unol â Pholisi Adnewyddu Tai ac Addasiadau i'r Anabl y Sector Preifat, ac eithrio dyfarnu Grant Oes Gyfan Dewisol ar gyfer Cyfleusterau i'r Anabl. |
| 2.15 | Awdurdodi, mewn amgylchiadau priodol, hepgor y cyfnod cymhwyso blaenorol ar gyfer perchen-feddianwyr a thenantiaid a nodir ym Mholisi Adnewyddu Tai Sector Preifat Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn perthynas â cheisiadau am y mathau amrywiol o grantiau a gynhwysir ynddo. |
| 2.16 | Gwneud dyfarniadau dewisol i atal digartrefedd y bobl hynny y byddai gan yr Awdurdod fel arall ddyletswydd i'w lletya yn unol â deddfwriaeth. |
| 2.17 | Ystyried ac addasu'r ffioedd proffesiynol sy'n daladwy i asiantau a gyflogir gan ymgeiswyr ar gyfer unrhyw grantiau a weinyddir o dan Bolisi Adnewyddu Tai Sector Preifat Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. |
| 2.18 | Addasu taliadau grant mewn perthynas ag unrhyw grantiau statudol a gymeradwywyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 neu Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 ac unrhyw grantiau anstatudol a gymeradwywyd o dan Bolisi Adnewyddu Tai Sector Preifat Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr pan fo'r canlynol yn berthnasol:<br><br>(a) Yr ystyrir bod angen gwneud gwaith ychwanegol na ellid bod wedi'i ragweld ar adeg cymeradwyo'r grant am y tro cyntaf;<br><br>(b) Y canfuwyd bod gwaith a gynhwyswyd ar adeg cymeradwyo'r grant am y tro cyntaf yn ddiangen. |
| 2.19 | Dyfarnu rhyddhad i bob busnes cymwys a all fod â'r hawl i ryddhad yn unol â'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig ar ôl derbyn ffurflen gais ddilys. |
| 2.20 | Awdurdodi Swyddogion Refeniw i ymddangos ar ran y Cyngor mewn Gwrandawiadau Tribiwnlys Prisio ac mewn achosion Llys Ynadon yn unol ag adran 223 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. |

**3. SWYDDOGAETHAU A DDYRENNIR I'R SWYDDOG MONITRO**

**A. SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR:**

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| 3.1 | Penderfynu ar geisiadau i ganiatáu neu adnewyddu cymeradwyaethau lleoliadau ar gyfer gweinyddu priodasau a phartneriaethau sifil yn unol ag adran 26(1)(bb) o Ddeddf Priodasau 1949 a Deddf Partneriaeth Sifil 2004, a dirymu cymeradwyaethau o'r fath. |
| 3.2 | Cymryd pob cam sydd ei angen i ymgymryd â Gorchmynion Prynu Gorfodol. |
| 3.3 | Arfer unrhyw bwerau sydd ar gael i'r Cyngor o dan ddarpariaethau unrhyw gontract sy'n ymwneud â phenderfynu neu fforffedu'r contract. |
| 3.5 | Gweithredu swyddogaethau'r Cyngor yn dilyn cyflwyno Hysbysiad Prynu neu Hysbysiad Malltod, gan gynnwys dyroddi a chyflwyno hysbysiadau neu wrth-hysbysiadau. |
| 3.6 | Penodi swyddogion awdurdodedig at ddibenion Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005. |
| 3.7 | Caniatáu ceisiadau am drwyddedau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat a thrwyddedau gweithredwyr hurio preifat a dirymu trwyddedau presennol pan roddir trwyddedau cerbydau newydd, yn unol â Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, fel y bo'n briodol. |
| 3.8 | Atal trwyddedau sy'n ymwneud â cherbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn unol ag adrannau 60 a 68 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. |
| 3.9 | Caniatáu, atal a/neu ddirymu, ac adfer trwyddedau gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat presennol yn unol â'r canllawiau, amodau neu gyfyngiadau a bennir gan y Pwyllgor Trwyddedu ac yn unol â Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 fel y bo'n briodol. |
| 3.10 | Caniatáu neu adnewyddu'r ceisiadau a nodir isod cyn belled nad oes unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau wedi'u derbyn gan gyrff statudol na'r cyhoedd:<br>(a) Trwyddedau Canolfannau Difyrion gyda Gwobrau (ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud ag arcedau)<br>(b) Cydsyniadau Masnachu ar y Stryd<br>Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 fel y bo'n briodol. |

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| 3.11 | Amrywio'r amodau sydd ynghlwm wrth Drwyddedau Mangre sy'n ymwneud â rhoi cydsyniad ysgrifenedig ar gyfer gweithgaredd cyn belled nad oes unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau wedi'u derbyn gan awdurdodau cyfrifol na'r cyhoedd yn unol â Deddf Trwyddedu 2003. |
| 3.12 | Caniatáu ac adnewyddu ceisiadau am drwyddedau, hawlenni a chofrestriadau, a gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud (gan gynnwys y pŵer i gyflwyno unrhyw hysbysiad) sy'n angenrheidiol ar gyfer gorfodi unrhyw rai o'r darpariaethau a gynhwysir yn y deddfiadau a restrir isod (yn amodol ar unrhyw bolisïau a ragnodir gan y Pwyllgor Trwyddedu):<br><br>Deddf Casgliad o Dŷ i Dŷ 1939<br>Deddf yr Heddlu, Ffatrïoedd, ac ati (Darpariaethau Amrywiol) 1916 |
| 3.13 | Penderfynu neu wneud penderfyniadau (fel y bo'n briodol) o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ynghylch y materion canlynol:<br><br>(a) Ceisiadau am drwyddedau personol (os na chyflwynir gwrthwynebiad);<br>(b) Ceisiadau am dystysgrifau mangre / mangre clwb (os na chyflwynir sylwadau perthnasol);<br>(c) Ceisiadau am ddatganiadau dros dro (os na chyflwynir unrhyw sylwadau perthnasol);<br>(d) Ceisiadau i amrywio tystysgrifau mangre / mangre clwb (os na chyflwynir sylwadau perthnasol);<br>(e) Ceisiadau i amrywio goruchwyliwr mangre dynodedig (os nad oes gan yr heddlu wrthwynebiad);<br>(f) Ceisiadau i ymddiswyddo fel goruchwyliwr mangre dynodedig;<br>(g) Ceisiadau i drosglwyddo trwydded mangre (os nad oes gan yr heddlu wrthwynebiad);<br>(h) Ceisiadau i roddi awdurdodiad interim (os nad oes gan yr heddlu wrthwynebiad);<br>(i) Penderfynu p'un a yw cwyn neu sylw yn amherthnasol, yn wacsaw neu'n flinderus ac ati;<br>(j) Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer i'w wneud (gan gynnwys y pŵer i gyflwyno unrhyw hysbysiad neu wrth-hysbysiad) sy'n angenrheidiol ar gyfer gorfodi unrhyw un o'r darpariaethau a gynhwysir yn Neddf Trwyddedu 2003;<br>(k) Gwneud unrhyw beth y mae gan yr awdurdod trwyddedu ddyletswydd neu bŵer i'w wneud mewn perthynas â Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro.<br>(l) Penderfynu ar geisiadau a dderbyniwyd o dan Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Mân Amrywiadau i Drwyddedau Mangre a Mangre Clwb) 2009 yn unol â Chanllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol.<br>(m) Penderfynu ar geisiadau a dderbyniwyd dan Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Goruchwylio Gwerthu Alcohol mewn Neuaddau Eglwys a Phentref a Mangre Cymunedol) 2009 lle nad oes hysbysiad yn gwrthwynebu wedi'i dderbyn gan Brif Swyddog yr Heddlu. |
| 3.14 | Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor ddyletswydd neu bŵer i'w wneud (gan gynnwys y pŵer i gyflwyno unrhyw hysbysiad) sy'n angenrheidiol ar gyfer gorfodi unrhyw un o'r darpariaethau a gynhwysir yn Neddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. |

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| 3.15 | Penderfynu ar geisiadau i ddiwygio'r gofrestr o dir comin yn unol â Deddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965 a Deddf Tiroedd Comin 2006 lle na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau yn dilyn proses ymgynghori statudol. |
| 3.16 | Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer i'w wneud (gan gynnwys y pŵer i gyflwyno unrhyw hysbysiad) sy'n angenrheidiol i orfodi unrhyw un o'r darpariaethau a gynhwysir yn Neddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965 a Deddf Tiroedd Comin 2006. |
| 3.17 | Cyflwyno ceisiadau i adolygu trwyddedau mangre yn unol ag adran 197 o Ddeddf Gamblo 2005. |
| 3.18 | Dyfarnu neu wneud penderfyniadau (fel y bo'n briodol) o dan Ddeddf Gamblo 2005 ynghylch y materion canlynol:<br><br>(a) Ceisiadau am drwydded mangre lle na dderbyniwyd unrhyw sylwadau neu lle mae sylwadau wedi'u tynnu'n ôl;<br>(b) Ceisiadau i amrywio trwydded lle na dderbyniwyd unrhyw sylwadau neu lle mae sylwadau wedi'u tynnu'n ôl;<br>(c) Ceisiadau i drosglwyddo trwydded lle na dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y Comisiwn Hapchwarae;<br>(d) Ceisiadau am ddatganiad dros dro lle na dderbyniwyd unrhyw sylwadau neu lle mae sylwadau wedi'u tynnu'n ôl;<br>(e) Ceisiadau am drwyddedau hapchwarae mewn clwb / peiriannau mewn clwb lle nad oes gwrthwynebiadau wedi'u derbyn neu lle mae gwrthwynebiadau wedi'u tynnu'n ôl;<br>(f) Ceisiadau am drwyddedau eraill;<br>(g) Canslo trwyddedau peiriannau hapchwarae safleoedd trwyddedig;<br>(h) Cais am hysbysiad defnydd achlysurol;<br>(i) Cais am hysbysiad defnydd dros dro;<br>(j) Ni fydd penderfynu p'un a yw sylwadau'n wacsaw neu'n flinderus yn dylanwadu ar benderfyniad yr Awdurdod ynglŷn â chais.<br>(k) Cais i gofrestru fel Loteri Cymdeithasau Bach. |
| 3.19 | Arfer unrhyw bŵer a roddir i'r Cyngor i adennill costau y mae wedi mynd iddynt o ganlyniad i arfer unrhyw un o'r pwerau a ddirprwyir iddo drwy hyn gan y Cynllun Dirprwyo hwn. |
| 3.20 | Rhoi trwyddedau yn awdurdodi defnyddio tir fel maes carafanau ("trwyddedau safle") yn unol ag Adran 3(3) o Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960. |
| 3.21 | Trwyddedu defnydd anheddau symudol a safleoedd gwersylla yn unol ag Adran 268(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936. |
| 3.22 | Trwyddedu eiddo ar gyfer aciwbigo, tatŵio, tyllu clustiau ac electrolysis yn unol ag Adran 13 i 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. |
| 3.23 | |

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| | Trwyddedu delwyr helwriaeth a thrwyddedu lladd a gwerthu helwriaeth yn unol â Deddf Helwriaeth 1831. |
| 3.24 | Cofrestru a chymeradwyo sefydliadau busnes bwyd yn unol ag Erthygl 31 o Reoliad 882/2004 y CE. |
| 3.25 | Trwyddedu safleoedd ar gyfer bridio cŵn yn unol ag Adran 1 o Ddeddf Bridio Cŵn 1973 ac Adran 1 o Ddeddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999. |
| 3.26 | Trwyddedu anifeiliaid gwyllt peryglus yn unol ag Adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976. |
| 3.27 | Caniatáu defnyddio uchelseinydd yn unol ag Atodlen 2 o Ddeddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993. |
| 3.28 | Trwyddedu a chofnodi symudiadau geifr, defaid, gwartheg, moch a cheirw yn unol â darpariaethau Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003. |
| 3.29 | Cymeradwyo sefydliadau cynnyrch penodol yn amodol ar gymeradwyaeth dan ddarpariaethau Rheoliad 853/2004 y CE. |
| 3.30 | Pob swyddogaeth o dan unrhyw un o'r "darpariaethau statudol perthnasol" o fewn ystyr Rhan I (iechyd, diogelwch a lles mewn cysylltiad â gwaith, a rheoli sylweddau peryglus) o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974, i'r graddau y mae'r swyddogaethau hynny'n cael eu cyflawni gan y Cyngor pan nad ef yw'r cyflogwr. |
| 3.31 | Y swyddogaethau a ddisgrifir ym mharagraffau (2), (3) a (4) o Reoliad 2 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 i'r graddau y maent yn arferadwy mewn cysylltiad â chyflawni'r swyddogaethau sydd wedi'u rhestru. |
| 3.32 | Cyflwyno ceisiadau i adolygu trwyddedau eiddo yn unol ag Adran 197 o Ddeddf Gamblo 2005. |
| 3.33 | Penderfynu ar geisiadau ac ymdrin â phob mater arall sy'n ymwneud â gweinyddu a gorfodi Deddf Hypnotiaeth 1952. |

**B** **SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR/CABINET:**

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| 3.34 | |

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| | Cychwyn ac amddiffyn pob achos sifil a throseddol (gan gynnwys apeliadau) ar ran y Cyngor ac unrhyw sefydliad arall, ac awdurdodi sefydliadau eraill i wneud hynny ar ran yr Awdurdod hwn, fel y bo'n briodol, boed yr achosion eisoes wedi cychwyn neu y disgwylir iddynt gychwyn, ac eithrio achosion y dyrannwyd swyddogaeth debyg i unrhyw swyddog arall o'r Cyngor mewn perthynas â hwy (ac eithrio aelodau staff yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol), a chymryd unrhyw gamau eraill mewn cysylltiad â chynnal achosion fel y mae'n eu hystyried yn briodol, gan gynnwys eu tynnu'n ôl neu eu dirwyn i ben. |
| 3.35 | Awdurdodi setlo achosion sifil a/neu droseddol, p'un a ydynt wedi cychwyn neu y mae disgwyl iddynt gychwyn, pan fo'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor neu i'r Cyngor yn fwy na £100,000. |
| 3.36 | Cyfarwyddo Cwnsler neu gyflogi cyfreithwyr allanol mewn cysylltiad ag unrhyw fater cyfreithiol sy'n effeithio ar y Cyngor pan nad yw'r gost amcangyfrifedig o wneud hynny yn fwy na £100,000. |
| 3.37 | Awdurdodi staff y Gwasanaethau Cyfreithiol i ymddangos ar ran y Cyngor mewn achosion llys sirol neu lys ynadon yn unol ag Adran 60 o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984 ac Adran 223 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. |
| 3.38 | Cymryd pob cam sydd ei angen i amddiffyn yr Awdurdod a/neu alluogi'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau a'i bwerau Statudol a'i ddyletswyddau a'i bwerau o dan y Gyfraith Gyffredin. |
| 3.39 | Cyhoeddi a chyflwyno hysbysiadau statudol yn gofyn am wybodaeth mewn perthynas â buddiannau mewn a/neu ddefnydd tir. |
| 3.40 | Rhoi unrhyw dystysgrif neu hysbysiad sydd ei angen at ddiben cofrestru unrhyw bridiant statudol neu bridiant arall yng Nghofrestrfa Tir EF ar ran y Cyngor. |
| 3.41 | Arfer unrhyw bwerau sydd ar gael i'r Cyngor dan ddarpariaethau unrhyw gontract sy'n ymwneud â phenderfynu ar y contract neu fforffedu'r contract. |
| 3.42 | Cymeradwyo ac ymrwymo i unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n atodol i unrhyw gytundeb presennol a gymeradwywyd gan neu ar ran y Cyngor mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol. |

## C **SWYDDOGAETHAU'R CABINET:**

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| 3.43 | Dyroddi trwyddedau ar gyfer mannau parcio yn unol ag Adrannau 32(1) a 35(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. |
| 3.44 | |

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| | Cymryd camau priodol i orfodi unrhyw bridiant statudol dros eiddo sy'n bodoli o blaid y Cyngor. |
| 3.45 | Cymeradwyo ceisiadau am grantiau i fudiadau gwirfoddol yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cabinet neu'r Cyngor pan nad yw swm y grant yn fwy na £10,000. |
| 3.46 | Awdurdodi datgladdiadau yn amodol ar gael unrhyw gydsyniadau angenrheidiol yn gyntaf. |
| 3.47 | Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud o dan ddarpariaethau'r deddfiadau a ganlyn neu unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y rhain:<br><br>Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 — Y pŵer i ymafael mewn a phowndio ceffylau strae<br>Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 – Adran 15 — Y pŵer i ymafael mewn a phowndio anifeiliaid strae.<br>Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 – Adran 19 — Y pŵer i gyflwyno hysbysiad yn gofyn am waith i waliau cydrannol neu waliau terfyn.<br>Deddf Adeiladu 1984 – Adran 77 — Y pŵer i wneud gwaith ar adeiladau peryglus ac adennill costau.<br>Deddf Adeiladu 1984 – Adran 78 — Mesurau brys ar gyfer delio ag adeileddau peryglus |
| 3.48 | Cyflwyno Hysbysiadau Gwella a Hysbysiadau Gwahardd Brys o dan y darpariaethau statudol a ganlyn:<br><br>(a) Deddf Diogelwch Bwyd 1990;<br>Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.<br>(b) Cyflwyno Hysbysiadau Camau Unioni, Hysbysiadau Cadw, Hysbysiadau Gwella Hylendid a Hysbysiadau Gwahardd Brys Hylendid a gwneud ceisiadau am Orchmynion Gwahardd Brys Hylendid o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. |
| 3.49 | Er gwaethaf unrhyw beth a gynhwysir yn y Cynllun Dirprwyo hwn, mae gan y Swyddog Monitro'r pŵer i gymryd unrhyw gamau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol i ddiogelu buddiannau'r Cyngor mewn perthynas ag unrhyw ddeddfwriaeth sy'n rhoi dyletswyddau neu bwerau i'r Cyngor. |
| 3.50 | Cynnal gwyliadwriaeth ar sail oedran o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 |
| 3.51 | Cymeradwyo a gweithredu cytundebau a wnaed yn unol â Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 |
| 3.52 | Awdurdodi Swyddogion y Cyngor i ymddangos ar ran y Cyngor mewn achosion llys ynadon yn unol ag Adran 223 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i gael cymeradwyaeth i awdurdodiadau a hysbysiadau o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. |
| 3.53 | |

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| | Gwneud cais i'r Llys Ynadon am warant i fynd ar dir o dan Adran 196B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 |
| 3.54 | Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor y pŵer i'w wneud (gan gynnwys y pŵer i gyflwyno unrhyw hysbysiad) sy'n angenrheidiol ar gyfer gorfodi unrhyw un o'r darpariaethau a gynhwysir yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ac eithrio Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus fel y nodir yn, Pennod 2 o'r Ddeddf. |
| 3.55 | Asesu cymhwysedd unigolyn i gael bathodyn fel y'i diffinnir yn adrannau 21-21C o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 a, lle bo'n briodol, dyroddi'r bathodyn neu brosesu gweithdrefn apelio. |
| 3.56 | Bod yn berson â'r radd briodol a ddynodwyd gan y Cyngor i gynnal adolygiad o unrhyw benderfyniad yn unol â darpariaethau Rhan VII o Ddeddf Tai 1996 a Rhan II o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. |
| 3.57 | Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor y pŵer i'w wneud (gan gynnwys y pŵer i gyflwyno unrhyw hysbysiad) sy'n angenrheidiol i orfodi unrhyw un o'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019. |

**4. SWYDDOGAETHAU A DDYRENNIR I'R CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD**

**A. SWYDDOGAETHAU'R CABINET:**

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| 4.1 | Cychwyn achosion ynglŷn â methu mynychu'r ysgol yn unol ag Adran 444 o Ddeddf Addysg 1996. |
| 4.2 | Cymeradwyo newidiadau i fformiwla ariannu ysgolion y Cyngor yn dilyn ymgynghori priodol. |
| 4.3 | Gwneud dyfarniadau yn ôl disgresiwn i fyfyrwyr mewn amgylchiadau sydd y tu allan i'r canllawiau arferol ar gyfer cyllid a dyfarniadau. |
| 4.4 | Penderfynu ar wariant ar brosiectau y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi rhoi cymeradwyaeth benodol ar eu cyfer a'i awdurdodi. |
| 4.5 | Cymeradwyo ceisiadau am grantiau i fudiadau gwirfoddol yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cabinet neu'r Cyngor pan nad yw swm y grant yn fwy na £10,000. |
| 4.6 | Yn absenoldeb yr Aelod Cabinet sy’n gyfrifol am y swyddogaeth addysg, penodi llywodraethwyr ysgol AALl ychwanegol i gefnogi ysgolion sy'n peri pryder. |
| 4.7 | Gwneud trefniadau contractiol addas ar gyfer darparu cludiant ysgol. |
| 4.8 | Terfynu contractau cludiant ysgol mewn amgylchiadau lle mae'r contractiwr yn torri'r contract. |

## 5. SWYDDOGAETHAU A DDYRENNIR I'R CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT

## A. SWYDDOGAETHAU'R CABINET:

| | Swyddogaethau a Ddyrennir |
|---|---|
| 5.1 | Derbyn i warcheidiaeth bersonau sy'n dioddef o anhwylder meddwl. |
| 5.2 | Cymeradwyo gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol fel rhai sydd â chymhwysedd priodol i ymdrin â phobl sy'n dioddef o anhwylder meddwl. |
| 5.3 | Arfer pwerau Dirprwy pan fo'r Llys Gwarchod yn gwneud y penodiad hwnnw. |
| 5.4 | Cymeradwyo lefelau uchafswm cyllid i fudiadau gwirfoddol ac i unigolion pan nad yw swm y cyllid yn fwy na £10,000. |
| 5.5 | Awdurdodi cau canolfannau hamdden dros dro neu amrywio eu horiau agor. |
| 5.6 | Cyflawni swyddogaethau Perthynas Agosaf yn unol â Deddf Iechyd Meddwl 1983 wedi i'r Llys Sirol wneud y penodiad hwnnw neu ar ôl i'r person a ddynodwyd fel perthynas agosaf y claf awdurdodi hynny. |
| 5.7 | Llofnodi cytundeb tenantiaeth yn unol â gorchymyn y Llys Gwarchod ar ran unigolyn a enwir neu unigolion sydd heb alluedd o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. |
| 5.8 | Awdurdodi, a chytuno ar delerau ar gyfer, cytundebau taliadau gohiriedig a phridiannau cyfreithiol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac awdurdodi cofrestru'r pridiannau cyfreithiol yn y Gofrestrfa Tir ar ran y Cyngor. |
| 5.9 | Penderfynu ar wariant ar brosiectau y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi rhoi cymeradwyaeth benodol ar eu cyfer a'i awdurdodi. |
| 5.10 | Ar ôl ystyried unrhyw argymhellion a wnaed gan Banel Maethu Pen-y-bont ar Ogwr:<br><br>(a) Cymeradwyo person fel rhiant maeth;<br>(b) Penderfynu, yn dilyn adolygiad, bod rhiant maeth ac aelwyd y rhiant maeth yn parhau i fod yn addas a bod telerau cymeradwyo'r rhiant maeth yn parhau i fod yn briodol;<br>(c) Penderfynu, yn dilyn adolygiad, nad yw'r darparwr gwasanaeth maethu bellach yn fodlon bod y rhiant maeth ac aelwyd y rhiant maeth yn parhau i fod yn addas neu nad yw telerau cymeradwyo'r rhiant maeth yn parhau i fod yn briodol, a naill ai penderfynu terfynu'r gymeradwyaeth o ddyddiad penodedig neu benderfynu ar delerau diwygiedig y gymeradwyaeth yn ôl yr amgylchiadau. |
| 5.11 | Ar ôl ystyried unrhyw argymhellion a wnaed gan Banel Mabwysiadu Pen-y-bont ar Ogwr ac unrhyw faterion eraill y gall bod angen i'r Cyngor eu hystyried yn rhinwedd ei swydd fel asiantaeth fabwysiadu: |

| | |
|---|---|
| | (a) Penderfynu p'un a yw mabwysiadu er lles gorau plentyn, ac os penderfynir felly, p'un a ddylid gwneud cais i ryddhau'r plentyn i'w fabwysiadu a ph'un a ddylid talu lwfans;<br><br>(b) Penderfynu p'un a yw darpar fabwysiadwr yn addas i fod yn rhiant sy'n mabwysiadu ac<br><br>(c) Penderfynu p'un a fyddai darpar fabwysiadwr yn rhiant sy'n mabwysiadu addas ar gyfer plentyn penodol. |
| 5.12 | Awdurdodi cau llyfrgelloedd dros dro neu amrywio eu horiau agor |
| 5.13 | Cyflawni swyddogaeth y corff goruchwylio at ddibenion Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a gweithredu fel Llofnodwr Awdurdodedig pan fydd y corff goruchwylio yn rhoi awdurdodiad ar gyfer amddifadu o ryddid. |
| 5.14 | Awdurdodi a chytuno ar delerau ar gyfer trwyddedau i feddiannu yn unol â Safonau Gofal Cartref Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. |
| 5.15 | Llofnodi ar ran y Cyngor drwyddedau i feddiannu yn unol â Safonau Gofal Cartref Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. |

## 6. SWYDDOGAETHAU A DDYRENNIR I'R CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – CYMUNEDAU

### A. SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR:

| | Swyddogaethau a Ddyrennir |
|---|---|
| 6.1 | Y darpariaethau canlynol ynghyd â:<br><br>(a) Y pŵer i benderfynu ar y canlynol: Ceisiadau'r Cyngor, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, oni bai fod gwrthwynebiad cynllunio perthnasol wedi ei dderbyn; unrhyw gais lle mae Aelod lleol wedi mynegi pryder cynllunio perthnasol a bod gwneud y penderfyniad dirprwyedig yn unol â'r pryder hwnnw neu pan nad oes gwrthwynebiad arall wedi ei dderbyn o fewn y cyfnod ymgynghori / y cyfnod cyhoeddusrwydd ac nad yw Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn ystyried bod angen adrodd y cais i'r Pwyllgor; unrhyw gais a gyflwynir gan Aelod, Prif Swyddog, neu unrhyw swyddog sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog, neu unrhyw swyddog yn yr Adran Datblygu neu'r Adran Gwasanaethau Priffyrdd sy'n ymwneud â phrosesu / gwneud sylwadau ar geisiadau (neu briod neu bartner unrhyw un o'r rhain) os na dderbyniwyd gwrthwynebiad cynllunio perthnasol. |

(b) Y pŵer i benderfynu ar bob cais cynllunio a cheisiadau am gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl, caniatâd i hysbysebu, caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth, ceisiadau am ganiatâd Gorchymyn Cadw Coed a cheisiadau o dan y Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel a gyflwynir i'r Cyngor ac eithrio ceisiadau sy'n dod o fewn unrhyw un o'r categorïau ceisiadau eithriedig a ragnodir o bryd i'w gilydd gan y Cyngor;

(c) Y pŵer i benderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd ar hyn o bryd gan y Cyngor;

(d) Yr hawl i ymrwymo i Rwymedigaethau Cynllunio Adran 106 ar gyfer ceisiadau a ddirprwywyd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y cyd â'r Swyddog Monitro

(e) Yr hawl i gytuno a gwneud mân newidiadau i Gytundebau Adran 106 y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar y cyd â'r Swyddog Monitro ac yn amodol ar ddisgresiwn Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

| **Darpariaeth** | **Crynodeb o'r Effaith** |
|---|---|
| Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Delio â diwygiadau ansylweddol a mân ddiwygiadau i geisiadau cynllunio o dan Adran 96A ac Adran 73 |
| Deddf Digollediad Tir 1961 – Adran 17 | Penderfynu, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, ar geisiadau am Dystysgrif Datblygiad Arall Priodol |
| Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 – Adran 38 | Cyflwyno hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig. |
| Deddf Cynllunio a Digolledu 1991 | Penderfynu ar Dystysgrifau Cyfreithlondeb mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro. |
| Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 324 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adran 88 | Rhoi awdurdodiad ysgrifenedig i swyddogion priodol i'w galluogi i arfer pwerau mynediad. |
| Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 330 | Cyflwyno hysbysiadau yn gofyn am wybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir. |
| Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 – Dosbarth A o Ran 6 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn | Penderfynu ar geisiadau am ganiatâd ymlaen llaw mewn perthynas ag adeiladau a gweithrediadau amaethyddol. |
| Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 – Dosbarth A o Ran 7 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn | Penderfynu ar geisiadau am gymeradwyaeth ymlaen llaw mewn perthynas ag adeiladau a gweithrediadau gwaith coed. |
| Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 – Dosbarth A o Ran 24 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn | Penderfynu ar geisiadau am gymeradwyaeth ymlaen llaw mewn perthynas â datblygiad gan Weithredwyr System y Cod Telathrebu. |
| Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 – Dosbarth A o Ran 31 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn | Penderfynu ar geisiadau am ganiatâd ymlaen llaw i ddymchwel adeiladau. |
| Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 207 | Cyflwyno hysbysiadau amnewid coed. |

| | | |
|---|---|---|
| | Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 – Erthygl 23 | Awdurdodi gwaith sy'n cydymffurfio ag amodau a osodwyd ar ganiatâd cynllunio. |
| | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 | Penderfynu p'un a ddylai ceisiadau cynllunio fod yn destun asesiad amgylcheddol. |
| | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 171C | Cyflwyno hysbysiad tramgwyddo mewn perthynas â chynllunio ac ystyried unrhyw gynigion neu sylwadau a wneir yn bersonol mewn ymateb i hysbysiad o'r fath. |
| | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 172 | Dyroddi hysbysiadau gorfodi. |
| | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 183 | Cyflwyno hysbysiadau stop. |
| | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 171E | Cyflwyno hysbysiadau stop dros dro. |
| | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 187A | Cyflwyno hysbysiadau torri amodau. |
| | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 171A | Cyflwyno Hysbysiad Rhybudd Gorfodi |
| | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adrannau 199 a 201 | Y pŵer i wneud gorchymyn cadw coed ac i gynnwys yn y gorchymyn gyfarwyddyd y bydd yn dod i rym ar unwaith heb gadarnhad blaenorol. |
| | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Adran 33(7) | Y pŵer i amrywio neu ddirymu Gorchmynion Cadw Coed mewn achosion priodol. |
| | Gwneud Cyfarwyddiadau Erthygl 4 brys o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 | Gwneud Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) brys mewn Ardaloedd Cadwraeth lle mae bygythiad o niwed ar fin digwydd i gymeriad neu olwg Ardaloedd Cadwraeth. |
| | **<u>Swyddogaethau a Ddyrennir</u>** | |
| 6.2 | Mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, penderfynu ar geisiadau i ddefnyddio unedau manwerthu ym Mhentref Siopau Dylunwyr, Pen-y-bont ar Ogwr, y tu allan i delerau'r cytundeb a luniwyd o dan adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | |
| 6.3 | Arfer unrhyw bŵer a roddir i'r Cyngor i adennill costau y mae wedi mynd iddynt o ganlyniad i arfer unrhyw un o'r pwerau a ddirprwyir iddo drwy hyn gan y Cynllun Dirprwyo hwn. | |
| 6.4 | Awdurdodi cyflwyno Hysbysiadau Diogelu Adeiladau i berchnogion a meddianwyr adeiladau yn unol â Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, Adrannau 3 a 4, a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, Adran 25. | |
| 6.5 | Trafod a mynegi barn ar ran y Cyngor ar ddatblygu Canllawiau Cynllunio Strategol ar gyfer De-ddwyrain Cymru a Pholisi Cynllunio Gwastraff ar gyfer De-orllewin Cymru gyda phersonau a chyrff eraill sy'n ymwneud â llunio polisïau cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol. | |

| | |
|---|---|
| 6.6 | Ar ôl ymgynghori, darparu sylwadau ffurfiol, gan gynnwys, lle bo'n briodol, wrthwynebiadau i awdurdodau cynllunio cyfagos mewn perthynas â dogfennau a baratowyd ganddynt i fodloni gofynion Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. |
| 6.7 | Darparu sylwadau i awdurdodau eraill pan ymgynghorir â'r Cyngor ar geisiadau cynllunio mewn ardaloedd cyfagos, a darparu Adroddiad ar yr Effaith Leol i Arolygiaeth Gynllunio Cymru ar Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr pan nad oes digon o amser i adrodd ar gynigion o'r fath i'r Cyngor, gyda'r sylwadau hyn yn cael eu hadrodd wedyn i'r Cyngor er gwybodaeth. |
| 6.8 | Arfer y pwerau a roddwyd i'r Cyngor gan Reoliadau Perthi 1997 sy'n ymwneud â diogelu perthi pwysig. |
| 6.9 | Cadarnhau gorchmynion cadw coed diwrthwynebiad o dan Adran 199 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. |
| 6.10 | Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud (gan gynnwys y pŵer i gyflwyno unrhyw hysbysiad) sy'n angenrheidiol ar gyfer gorfodi unrhyw un o'r darpariaethau a gynhwysir yn y deddfiadau a restrir isod ac unrhyw Orchmynion, Rheoliadau neu Offeryn arall a wneir o dan y rhain neu sy'n ymwneud â hwy, neu unrhyw addasiad neu ailddeddfiad o'r uchod, ac argymell i'r Swyddog Monitro y dylid cychwyn unrhyw achosion sifil neu droseddol sy'n codi o dorri'r darpariaethau hynny neu sy'n angenrheidiol ar gyfer gorfodi unrhyw un o'r darpariaethau hynny:<br><br>Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990<br>Deddf Cynllunio (Cymru) 2015<br>Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003<br>Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984<br>Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992<br>Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995<br>Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999<br>Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990<br>Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 |
| 6.11 | Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud o dan ddarpariaethau'r deddfiadau a ganlyn neu unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir wedi hynny: |

| **Darpariaeth** | **Crynodeb o'r Effaith** |
|---|---|
| Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adran 2, a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 – Adran 26 | Y pŵer i gyhoeddi rhestrau o adeiladau rhestredig |
| Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adran 3, a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 – Adran 24 | Y pŵer i gyflwyno hysbysiad rhestru i'r perchennog ac i'r meddiannydd |
| Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adran 3, a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 – Adran 25 | Y pŵer i restru adeilad dros dro drwy gyflwyno Hysbysiad Diogelu Adeilad |

| | | |
|---|---|---|
| | Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adrannau 54-60, a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 – Adrannau 30 a 31 | Y pŵer i wneud gwaith brys i ddiogelu adeilad rhestredig ac adennill costau |
| | Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adrannau 57-58 | Y pŵer i benderfynu ar geisiadau am gymorth grant tuag at y gwaith o atgyweirio neu gynnal a chadw adeiladau hanesyddol |
| | Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adran 76 | Y pŵer i wneud gwaith brys a diogelu adeilad gwag mewn ardal gadwraeth ac adennill costau |
| | Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adrannau 79-80 | Y pŵer i benderfynu ar geisiadau am gymorth grant tuag at y gwaith o atgyweirio neu gynnal a chadw adeiladau hanesyddol mewn cynllun tref |
| | Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 – Adran 44A, a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 – Adran 29 | Y pŵer i gyflwyno Hysbysiad Stop Dros Dro i berson y mae'n ymddangos i'r awdurdod ei fod yn gwneud y gwaith neu'n peri iddo gael ei wneud neu sydd â buddiant yn yr adeilad |

**B. <u>SWYDDOGAETHAU'R CABINET:</u>**

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| 6.12 | Cymeradwyo ceisiadau am grantiau i fudiadau gwirfoddol yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cabinet neu'r Cyngor pan nad yw swm y grant yn fwy na £10,000. |
| 6.13 | Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud (gan gynnwys y pŵer i gyflwyno unrhyw hysbysiad) sy'n angenrheidiol ar gyfer gorfodi unrhyw rai o'r darpariaethau a gynhwysir yn y deddfiadau a restrir isod (ac eithrio unrhyw un o'r darpariaethau hynny y mae'n rhaid eu gorfodi nad yw'n swyddogaeth Cabinet), ac argymell i'r Swyddog Monitro y dylid cychwyn achos troseddol sy'n deillio o unrhyw achos o dorri'r darpariaethau hynny:<br><br>Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003<br>Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1926<br>Deddf Claddu 1857<br>Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005<br>Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 1992<br>Deddfau Amlosgi 1902 ac 1952<br>Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990<br>Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974<br>Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977<br>Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982<br>Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987<br>Deddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978 |
| 6.14 | Arfer pwerau'r Cyngor o dan Adrannau 3, 4, 5 a 6 o Ddeddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978 i symud a chael gwared ar gerbydau gadawedig ac adennill y costau sy'n gysylltiedig â hynny. |
| | |

| | |
|---|---|
| 6.15 | Penderfynu ar geisiadau am gymorth grant o dan Ddeddf Ardaloedd Trefol Mewnol 1978 ar gyfer gwelliannau i eiddo mewn Ardaloedd Gwella Diwydiant a Masnach yn unol â'r rheolau a gymeradwywyd gan neu ar ran y Cyngor. |
| 6.16 | Cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd rhyng-awdurdod ynglŷn a datblygu polisïau strategol ar gyfer cynllunio gwastraff. |
| 6.17 | Mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, cymeradwyo cytundebau lefel gwasanaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent, Groundwork Pen-y-bont ar Ogwr a Choed Cymru. |
| 6.18 | Ymrwymo i gytundebau i alluogi priffyrdd i fod yn rhai y gellir eu cynnal a'u cadw ar draul y cyhoedd yn unol â Rhan IV o Ddeddf Priffyrdd 1980. |

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| 6.19 | Awdurdodi gwneud gorchmynion yn ymwneud â phriffyrdd (ac eithrio Gorchmynion o dan Adran 257 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) a'u cadarnhau, eu haddasu neu eu hamrywio yn unol â'r darpariaethau a gynhwysir yn y deddfiadau a ganlyn:<br><br>Deddf Llwybrau Beiciau 1984<br>Deddf Priffyrdd 1980<br>Deddf Traffig Ffyrdd 1991<br>Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984<br>Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994<br>Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990<br>Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847<br>Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 |
| 6.20 | Cymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i ddatgan bod priffyrdd yn rhai y gellir eu cynnal a'u cadw ar draul y cyhoedd, gan gynnwys, pan ystyrir yn briodol, derbyn ceisiadau i gyflwyno priffyrdd. |
| 6.21 | Ymgymryd a chynnal yr holl waith (gan gynnwys addasu a symud lle bo angen) at ddibenion priffyrdd yn unol â Rhan V o Ddeddf Priffyrdd 1980, ac ymrwymo i unrhyw gytundebau mewn perthynas ag unrhyw waith y cyfeirir ato yn Rhan V o Ddeddf Priffyrdd 1980. |
| 6.22 | Darparu gwasanaethau ac amwynderau dros briffordd a rhoi caniatâd i bartïon eraill ar gyfer gwneud gwaith a defnyddio gwrthrychau yn unol â Rhan VIIA o Ddeddf Priffyrdd 1980. |
| 6.23 | Cymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i atal neu ddileu ymyrraeth anghyfreithlon, aflonyddwch, niwsans neu rwystrau ar briffyrdd, gan gynnwys cyflwyno rhybuddion perthnasol lle bo'n briodol. |

| | |
|---|---|
| 6.24 | Rhoi caniatâd lle bo angen ar gyfer ymyrryd ar briffordd neu ei rhwystro yn unol â Rhan IX o Ddeddf Priffyrdd 1980. |
| 6.25 | Arfer yr holl bwerau a gynhwysir yn Rhan XI o Ddeddf Priffyrdd 1980 (ac eithrio'r pŵer a gynhwysir yn Adran 205 o'r Ddeddf honno) ynghylch gwneud gwaith ar Strydoedd Preifat, gan gynnwys pwerau i ymrwymo i gytundebau a chyhoeddi hysbysiadau a phenderfynu ar daliadau, ynghyd ag unrhyw gydsyniadau neu ganiatadau sydd eu hangen. |
| 6.26 | Arfer unrhyw bŵer a roddir i'r Cyngor lle mae deddfwriaeth yn gwneud darpariaeth i fedru adennill costau y mae wedi mynd iddynt o ganlyniad i arfer unrhyw un o'r pwerau a ddyrennir iddo drwy hyn. |
| 6.27 | Cymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i gau mynedfeydd preifat i'r briffordd yn unol â Rhan VIII o Ddeddf Priffyrdd 1980. |
| 6.28 | Cymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i orfodi darpariaethau Deddf Diogelu'r Arfordir 1949. |
| 6.29 | Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud sy'n angenrheidiol ar gyfer gorfodi unrhyw un o'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y deddfiadau a restrir isod ac unrhyw Orchmynion, Rheoliadau neu Offeryn arall a wneir o dan hynny neu sy'n ymwneud â hwy, neu unrhyw addasiad neu ailddeddfiad o'r uchod (ac eithrio unrhyw un o'r darpariaethau hynny nad yw eu gorfodi yn un o swyddogaethau'r Cabinet), ac argymell i'r Swyddog Monitro y dylid cychwyn achos troseddol sy'n deillio o dorri'r darpariaethau hynny:<br><br>Deddf Anifeiliaid 1971<br>Deddf Amddiffyn y Glannau 1949<br>Deddf Priffyrdd 1980<br>Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000<br>Deddf Draenio Tir 1991<br>Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969<br>Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 – Adran 57<br>Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 – Rhan III<br>Deddf Cronfeydd Dŵr 1975<br>Deddf Traffig Ffyrdd 1991<br>Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984<br>Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994<br>Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990<br>Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847<br>Deddf Trafnidiaeth 1985<br>Deddf Trafnidiaeth 2000<br>Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 |
| 6.30 | Awdurdodi gwneud Gorchmynion Traffig brys o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. |

| | |
|---|---|
| 6.31 | Awdurdodi gwneud Gorchmynion a chyhoeddi Hysbysiadau o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. |
| 6.32 | Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud o dan ddarpariaethau'r deddfiadau a ganlyn neu unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y rhain: |

| | **Darpariaeth** | **Crynodeb o'r Effaith** |
|---|---|---|
| | Deddf Adeiladu 1984 – Adran 77 | Y pŵer i wneud gwaith ar adeiladau peryglus ac adennill costau. |
| | Deddf Adeiladu 1984 – Adran 78 | Mesurau brys ar gyfer delio ag adeiledddau peryglus |
| | Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Atodlen 3) | Pwerau i ymdrin ag unrhyw fater sy'n codi o dan y Ddeddf yn ymwneud â Chynlluniau Draenio Cynaliadwy a'r Cyngor yn gweithredu fel Corff Cymeradwyo Cynlluniau Draenio Cynaliadwy, ac eithrio pan fo angen Contract neu Weithred, pan fo'n rhaid arfer pwerau mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 37 | Darpariaeth lle gall priffyrdd a grëir trwy gael eu cyflwyno ddod yn rhai y gellir eu cynnal ar draul y cyhoedd. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 38 | Pŵer awdurdodau priffyrdd i fabwysiadu drwy gytundeb. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 57 | Pwerau diofyn awdurdodau priffyrdd o ran peidio â thrwsio priffyrdd y gellir eu cynnal yn breifat. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 59 | Adennill costau yn deillio o draffig anghyffredin. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 73 | Y pŵer i ragnodi y llinell wella ar gyfer lledu strydoedd |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 74 | Y pŵer i ragnodi y llinell adeiladu. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 122 | Y pŵer i greu gwyriad dros dro pan fo priffordd ar fin cael ei hatgyweirio neu ei lledu. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 146 | Dyletswydd i gynnal a chadw camfeydd ac ati ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 147 | Y pŵer i awdurdodi codi camfeydd ac ati ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 278 | Cyfraniadau tuag at waith priffyrdd gan bersonau sy'n cael budd arbennig ohonynt. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 286 | Y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i onglau adeiladau newydd ar gorneli strydoedd gael eu talgrynnu. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 287 | Y pŵer i godi rhwystrau ar strydoedd mewn achosion o argyfwng ac ati. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 288 | Y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i bibellau nwy a dŵr gael eu symud |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 289 | Pwerau mynediad yr Awdurdod Priffyrdd at ddibenion cynnal arolwg. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 290 | Darpariaethau atodol ynghylch pwerau mynediad at ddiben cynnal arolwg. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 291 | Pwerau mynediad awdurdod priffyrdd at ddiben cynnal a chadw ac ati adeileddau a gweithiau penodol. |

| | Darpariaeth | Crynodeb o'r Effaith |
|---|---|---|
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 292 | Iawndal am ddifrod sy'n deillio o arfer pwerau mynediad ac ati o dan Adran 289 neu 291 a'r troseddau sy'n gysylltiedig â hynny. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 293 | Pwerau mynediad at ddibenion sy'n gysylltiedig â gorchmynion penodol sy'n ymwneud â llwybrau troed a llwybrau ceffylau. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 294 | Mynediad ac ati i eiddo at ddibenion penodol gan awdurdod priffyrdd neu gyngor. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 295 | Pŵer cynghorau i gael gwared ar ddeunyddiau penodol. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 297 | Pŵer awdurdod priffyrdd neu gyngor i fynnu gwybodaeth ynghylch perchnogaeth tir. |
| | Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 305 | Adennill costau gan Gynghorau ac awdurdodau priffyrdd. |
| | Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Adrannau 23 a 24. | Pwerau i ymdrin â choed peryglus. |
| | Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Adrannau 25 a 26. | Pwerau i ymdrin â chloddiadau peryglus. |
| | Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 – Adran 10 | Y pŵer i gyflwyno hysbysiad i leihau allyriadau llwch ac ati o weithrediadau adeiladu. |
| | Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 – Adran 11 | Y pŵer i gyflwyno hysbysiad i leihau llwch oherwydd symud glo. |
| | Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 – Adran 12 | Y pŵer i wneud waliau yn ddiogel rhag tywydd garw. |
| | Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 – Adran 13 | Y pŵer i gymeradwyo cynlluniau ac ati ar gyfer waliau cynnal. |
| | Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 – Adran 14 | Pŵer i gymeradwyo cynlluniau ac ati ar gyfer carthffosydd newydd ac i gyflwyno hysbysiadau i bersonau sy'n cyflwyno cynlluniau ac ati. |
| | Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 – Adran 17 | Y pŵer i wneud gorchymyn yn gwahardd defnyddio strydoedd preswyl ar gyfer parcio cerbydau trwm. |
| | Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 – Adran 19 | Y pŵer i gyflwyno hysbysiad yn gofyn am waith i waliau cydrannol neu waliau terfyn. |
| | Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 | Archwiliadau a phwerau mewn perthynas â thomenni. |
| | Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 – Adran 57 | Cosb am arddangos hysbysiadau sy'n atal defnydd y cyhoedd o lwybrau cyhoeddus. |
| | Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 – Rhan III | Rheoli gwaith stryd sy'n cael ei wneud gan ymgymerwyr cyfleustodau cyhoeddus yn unol â hawl statudol neu drwydded gwaith stryd |
| | Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 | Archwilio a chofrestru cronfeydd dŵr. |

| | Darpariaeth | Crynodeb o'r Effaith |
|---|---|---|
| | Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 – Adran 14(1) | Pwerau i gyfyngu ar gerbydau sy'n defnyddio ffordd. |
| | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 – Adran 61 | Aredig hawliau tramwy cyhoeddus. |

| | Swyddogaethau a Ddyrennir |
|---|---|
| 6.33 | Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud sy'n angenrheidiol ar gyfer gorfodi unrhyw un o'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y deddfiadau a restrir isod ac unrhyw Orchmynion, Rheoliadau neu Offeryn arall a wneir o dan hynny neu sy'n ymwneud â hwy, neu unrhyw addasiad neu ailddeddfiad o'r uchod (ac eithrio unrhyw un o'r darpariaethau hynny nad yw eu gorfodi yn un o swyddogaethau'r Cabinet), ac argymell i'r Swyddog Monitro y dylid cychwyn achos troseddol sy'n deillio o dorri'r darpariaethau hynny:<br><br>Deddf Adeiladu 1984<br>Deddf Claddu 1857<br>Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005<br>Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010<br>Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974<br>Deddf Priffyrdd 1980<br>Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987<br>Deddf Iechyd y Cyhoedd 1961<br>Deddfau Traffig Ffyrdd 1988 a 1991 |
| 6.34 | Gwneud unrhyw beth y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswydd i'w wneud o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Adeiladu a Deddf Adeiladu 1984 ynglŷn â phasio (gydag amodau neu heb amodau) neu wrthod cynlluniau wedi'u hadneuo, rhoi hysbysiadau nad oes gan y cynlluniau wedi'u hadneuo unrhyw effaith, a symud neu newid gwaith tramgwyddus. |

| | Swyddogaethau a Ddyrennir |
|---|---|
| 6.35 | Ymgymryd â'r swyddogaethau canlynol:<br>Rhoi hybysiad o Gladdedigaethau o dan Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1926<br>Rhoi Trwyddedau Coffa o dan Orchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977<br>Rhoi Hysbysiad o Fwriad i Symud Cerbydau Gadawedig o dan Ddeddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978<br>Gorfodi darpariaethau Deddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978; Adran 132 o Ddeddf Priffyrdd 1980; Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990; Adran 224 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003; a Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005. |
| 6.36 | Ymrwymo i gytundebau i greu llwybrau troed a llwybrau ceffyl yn unol ag adran 25 o Ddeddf Priffyrdd 1980. |
| 6.37 | Cymeradwyo ceisiadau gan fusnesau cymwys am gymorth ariannol o dan y cynlluniau grant a weithredir gan y Cyngor yn unol â'i bwerau datblygu economaidd. |

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| 6.38 | Penodi swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau i fod yn Ysgrifennydd a Dirprwy Ysgrifennydd Fforwm Mynediad Lleol Pen-y-bont ar Ogwr. |
| 6.39 | Ymgymryd â'r broses a nodir yn Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 i geisio enwebiadau ar gyfer aelodaeth o Fforwm Mynediad Lleol Pen-y-bont ar Ogwr. |
| 6.40 | Penodi ymgeiswyr priodol i fod yn aelodau o Fforwm Mynediad Lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn dilyn trafodaethau â Phennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth ac Ysgrifennydd Fforwm Mynediad Lleol Pen-y-bont ar Ogwr. |
| 6.41 | Cymeradwyo ceisiadau am grantiau'r Rhaglen Gwella Ystadau Diwydiannol o dan £60,000.00. |
| 6.42 | Arfer y pwerau a roddwyd i'r Cyngor o dan Ddeddf Tiroedd Comin 1899 neu unrhyw ddarpariaeth statudol arall mewn perthynas â thir comin rheoleiddiedig, ac eithrio'r pŵer i wneud, dirymu neu newid unrhyw is-ddeddfau. |
| 6.43 | Arfer unrhyw bŵer a roddwyd i'r Cyngor mewn perthynas â mabwysiadu a rheoli Tir Mannau Agored, Parciau (caeedig) a Chaeau Chwarae, gan gynnwys mannau chwarae plant ag offer, pafiliynau chwaraeon ac adeiladau hamdden cysylltiedig. |
| 6.44 | Ymrwymo i gytundebau asiantaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned o dan adran 43 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ar gyfer cynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus. |
| 6.45 | Penderfynu ar geisiadau am Orchmynion Addasu Mapiau Diffiniol a wnaed o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, naill ai i gymeradwyo ceisiadau'n ffurfiol neu i wrthod yn ffurfiol geisiadau lle nad oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r honiad bod y Map Diffiniol a'r Datganiad ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn anghywir. |
| 6.46 | Penderfynu ar bob cais a threfniadau gweinyddol mewn perthynas â meysydd dynodedig ac eisteddleoedd rheoledig o dan Ddeddf Diogelwch Meysydd Chwarae 1975 a dyroddi hysbysiadau gwahardd o dan Adran 10 o'r Ddeddf. |
| 6.47 | Penderfynu ar geisiadau gan denantiaid am ganiatâd y Cyngor fel landlord ar gyfer y canlynol:<br><br>(a) aseinio eu buddiannau lesddaliadol;<br>(b) isosod neu ddod â meddiant o'r cyfan neu ran o'r fangre a osodwyd i ben;<br>(c) newid y defnydd o'r safle a osodwyd yn amodol ar fod y defnydd arfaethedig:<br>(i) yn dod o fewn yr un dosbarth defnydd ag a ddiffinnir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 â'r defnydd presennol neu<br>(ii) yn newid y defnydd y rhoddwyd y caniatâd cynllunio ar ei gyfer naill ai'n benodol neu gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 |

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| | yn ddarostyngedig ar unrhyw ôl-ddyledion rhent yn cael eu talu ac unrhyw dor cyfamod arall yn cael ei unioni;<br>(d) creu morgais neu bridiant dros eu buddiannau llesddaliadol;<br>(e) gwneud newidiadau mewnol ac allanol a chodi ychwanegiadau ac estyniadau ar yr amod bod y tenant yn cael yr holl ganiatadau statudol angenrheidiol ac yn cydymffurfio â’r amodau eraill a ystyrir yn briodol.<br>(f) ildio is-les |
| 6.48 | Awdurdodi rhoi les neu denantiaeth mewn amgylchiadau lle mae hunaniaeth y tenant arfaethedig wedi newid ers i delerau’r trafodiad gael eu cymeradwyo gan neu ar ran y Cyngor. |
| 6.49 | Awdurdodi a chytuno ar delerau ar gyfer gosod yr holl eiddo gan y Cyngor neu i'r Cyngor (gan gynnwys y rhent sy'n daladwy) am rent nad yw'n fwy na £100,000 y flwyddyn. |
| 6.50 | Cymeradwyo setlo hawliadau iawndal statudol. |
| 6.51 | Penodi Asiantau Eiddo i farchnata unrhyw dir neu adeiladau'r Cyngor er mwyn eu gwerthu. |
| 6.52 | Awdurdodi, a chytuno ar delerau ar gyfer, gwaredu tir ac adeiladau, boed hynny drwy werthiant rhydd-ddaliadol neu drwy roi les i gydnabod talu premiwm pan nad yw'r gwerth amcangyfrifedig, wedi ystyried y pris gorau, yn fwy na £300,000. |
| 6.53 | Awdurdodi, a chytuno ar delerau ar gyfer, gwaredu tir ac adeiladau sydd â gwerth amcangyfrifedig nad yw’n fwy na £150,000, am lai na’i werth pan ystyrir: bod y gwarediad er budd llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ardal gyfan yr Awdurdod neu unrhyw ran ohoni, neu unrhyw un neu bob person sy'n byw neu'n bresennol yn ardal yr Awdurdod; a bod y gwarediad yn unol â'r Strategaeth Waredu a Chanllawiau Trosglwyddo Asedau Cymunedol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod; a bod y gwarediad yn llai na £50,000, ar yr amod nad yw'r gwarediad yn torri unrhyw ofynion Cymorth Gwladwriaethol. |
| 6.54 | Cytuno ar delerau ar gyfer adnewyddu'r holl lesoedd a roddwyd gan y Cyngor neu i'r Cyngor. |
| 6.55 | Awdurdodi a chytuno ar delerau ar gyfer rhoi hawddfreintiau a fforddfreintiau a thrwyddedau i feddiannu tir ac adeiladau gan y Cyngor neu i'r Cyngor. |
| 6.56 | Gwneud ceisiadau cynllunio mewn perthynas â thir y mae'r Cyngor yn bwriadu ei waredu. |
| 6.57 | Trefnu i yswiriant indemniad teitl gael ei weithredu mewn amgylchiadau addas. |

| | Swyddogaethau a Ddyrennir |
|---|---|
| | |
| 6.58 | Awdurdodi cyflwyno rhybuddion yn terfynu lesoedd neu denantiaethau (gan gynnwys y rhai ar gyfer adeiladau busnes a gwmpesir gan Ran II o Ddeddf Landlord a Thenant 1954) lle nad yw'r Cyngor yn gwrthwynebu rhoi les neu denantiaeth newydd. |
| 6.59 | Awdurdodi cyflwyno rhybuddion terfynu lesoedd a thenantiaethau (ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud ag adeiladau busnes a gwmpesir gan Ran II o Ddeddf Landlord a Thenant 1954 lle nad oes bwriad i wrthwynebu rhoi les neu denantiaeth newydd) a hysbysiadau i unioni tor cyfamod. |
| 6.60 | Argymell cychwyn fforffediad neu achos cyfreithiol arall yn erbyn lesddeiliaid / tenantiaid i'r Swyddog Monitro. |
| 6.61 | Awdurdodi cyflwyno hysbysiadau a gwrth-hysbysiadau priodol a chymryd unrhyw gamau eraill sydd eu hangen i warchod buddiannau'r Cyngor fel lesydd neu lesddeiliad. |
| 6.62 | Awdurdodi a chytuno ar gyflwyno a setlo apeliadau ardrethi a gyflwynir gan neu ar ran y Cyngor. |
| 6.63 | Awdurdodi a chytuno i ryddhau cyfamodau cyfyngol sydd o blaid neu yn rhwymo'r Cyngor am symiau hyd at uchafswm o £100,000. |
| 6.64 | Awdurdodi a chytuno ar delerau ar gyfer ildio lesoedd gan y Cyngor neu i'r Cyngor, gan gynnwys talu neu dderbyn premiwm nad yw'n fwy na £50,000. |
| 6.65 | Awdurdodi a chytuno ar delerau ar gyfer datrys hawliadau dadfeiliad a wneir gan neu yn erbyn y Cyngor. |
| 6.66 | Awdurdodi a chytuno ar delerau ar gyfer caffael tir neu adeiladau sydd ag amcangyfrif o werth cyfalaf neu werth blynyddol nad yw'n fwy na £100,000. |
| 6.67 | Cymeradwyo amrywio telerau les presennol. |
| 6.68 | Penodi arbenigwr neu gymrodeddwr i benderfynu ar adolygiad rhent neu unrhyw anghydfod o dan ddarpariaethau les sy'n bodoli lle nad yw'r gost amcangyfrifedig o wneud hynny yn fwy na £100,000. |
| 6.69 | Awdurdodi creu llwybrau caniataol ar unrhyw dir sy'n eiddo i'r Cyngor, mewn ymgynghoriad ag unrhyw adran ddaliadol |

| | **Swyddogaethau a Ddyrennir** |
|---|---|
| 6.70 | Awdurdodi cyflwyno hawl tramwy cyhoeddus (sef llwybr troed cyhoeddus, llwybr ceffylau cyhoeddus, neu gilffordd gyfyngedig) ar unrhyw dir sy'n eiddo i'r Cyngor, mewn ymgynghoriad ag unrhyw adran ddaliadol. |
| 6.71 | Cymeradwyo lefelau uchafswm cyllid i fudiadau gwirfoddol pan nad yw swm y cyllid yn fwy na £10,000. |
| 6.72 | Dyroddi a chyflwyno hysbysiadau statudol yn gofyn am wybodaeth, yn unol â Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. |
| 6.73 | Penderfynu ar geisiadau gan rydd-ddeiliaid am ganiatâd y Cyngor:<br><br>(a) fel cyfamodai lle mae gan y Cyngor fudd cyfamodau sy'n effeithio ar eiddo'r rhydd-ddeiliad;<br><br>(b) fel morgeisai lle mae morgais wedi'i gofrestru yn erbyn eiddo'r rhydd-ddeiliad o blaid y Cyngor;<br><br>(c) lle bo angen cydsyniad y Cyngor yn unol â chyfyngiad a gofrestrwyd yn erbyn eiddo’r rhydd-ddeiliad o blaid y Cyngor. |
| 6.74 | Awdurdodi a chytuno ar delerau ar gyfer gweithred cyfamod ar unrhyw dir neu adeiladau sydd ag amcangyfrif o werth cyfalaf neu werth blynyddol heb fod yn fwy na £100,000. |
| 6.75 | Penderfynu na ddylai'r darpariaethau adolygu rhent a gynhwysir mewn les eiddo ym mherchnogaeth y Cyngor gael eu gweithredu pan ystyrir bod adolygiad rhent yn amhriodol oherwydd amgylchiadau arbennig. |
| 6.76 | Cytuno ar delerau pob adolygiad rhent sy'n ymwneud ag eiddo sy'n cael ei lesio gan y Cyngor ac iddo |
| 6.77 | Cyhoeddi a chyflwyno Hysbysiadau’r Cod Rhagdaliadau yn unol â Deddf Priffyrdd 1980. |
| 6.78 | Awdurdodi cau llwybrau cyhoeddus neu dir mynediad a gorfodi unrhyw dramgwyddo fel y darperir ar ei gyfer yn y deddfiadau a ganlyn: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. |